

SAFER VALE

STRATEGAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

BRO MORGANNWG

2020-2023

BRO

DDIOGELACH



Cynnwys

RHAGAIR	Error! Bookmark not defined.
CYFLWYNIAD	Error! Bookmark not defined.
BETH YW PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL?	5
PARTNERIAETH BRO DDIOGELACH	7
Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru	8
Ddeddf Llesiant Cymunedau'r Dyfodol (Cymru)	8
Ein Bro - Ein Dyfodol	Error! Bookmark not defined.
Cynlluniau'r Bartneriaeth	9
Heddlu De Cymru	10
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	10
Cyngor Bro Morgannwg.....	Error! Bookmark not defined.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Error! Bookmark not defined.

Tân ac Achub De Cymru.....	Error! Bookmark not defined.
Meysydd ystyriaeth ychwanegol.....	12
DATBLYGIAD Y STRATEGAETH HON.....	Error! Bookmark not defined.
SWOT I'R BARTNERIAETH BRO DDIOGELACH.....	Error! Bookmark not defined.
Siart Llywodraethu.....	16
BRO MORGANNWG	18
GWASANAETHAU'R FRO.....	Error! Bookmark not defined.
Gwasanaethau Diogelwch Cymunedol	Error! Bookmark not defined.
YR ASESIAID STRATEGOL	21
BLAENORIAETH 1 - Atal a lleihau troseddu.	23
BLAENORIAETH 2 – Ymgysylltu ein cymunedau	36
BLAENORIAETH 3 – Diogelu	45
BLAENORIAETH 4 – Gweithio gyda'n gilydd	55

“Ni ddaw newid os disgwyliwn am ryw berson arall neu ryw amser arall. Y ni yw'r rhai y buom yn disgwyl amdanynt. Y ni yw'r newid y buom yn ei geisio.” Barack Obama

CYFLWYNIAD



Rwyf yn falch o gyflwyno'r Strategaeth Bro Ddiogelach ar gyfer 2020-2023.

Lluniwyd y strategaeth hon o ganlyniad i ddadansoddi'r heriau diogelwch cymunedol cyfredol sy'n wynebu ein cymunedau, ac yn dilyn proses ymgynghori gynhwysfawr a oedd yn cynnwys ein partneriaid, trigolion a rhanddeiliaid eraill. Rydym yn hyderus ei bod yn darparu cyfeiriad strategol gorau posibl i weithgareddau'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn ystod y 3 blynedd nesaf.

Dengys rhai rai llwyddiannau clodwiw diweddar sut mae'r bartneriaeth wedi gweithio'n galed i sicrhau gwelliannau diogelwch cymunedol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu hyb pwynt asesu sengl cam-drin domestig newydd (DAARC), sydd wedi cynyddu'r nifer o ddiodefwrwr a all gael

mynediad at y gwasanaethau iawn ar yr adeg iawn. Mae hefyd yn cynnwys nifer o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol diogelwch cymunedol sydd wedi gweithredu gorchmynion cau i ddiogelu ein poblogaeth fwyaf agored i niwed, ac wedi cyhoeddi gwaharddebau sifil i roi diogelwch hanfodol i ddiodefwrwr cam-drin domestig yn llwyddiannus. Hefyd dathlodd y Fro Ddiwrnod Hwyl Bro Ddiogelach llwyddiannus arall, lle y cysylltodd dros 4000 o drigolion â gwasanaethau diogelwch cymunedol lleol.

Rydym yn gwybod nad yw'r gwaith yn gorffen yn y fan honno, a chan adeiladu ar y gwaith da a wnaed hyd yma, bydd y strategaeth newydd hon yn sicrhau gwell perthynas gydlynol a thargedig, gan gydnabod pwysigrwydd a gwerth rôl pob partner o ran sicrhau bod y Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn cyflawni'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. Rydym wedi gwrandao ar yr hyn a ddywedodd trigolion a rhanddeiliaid wrthym, ac rydym yn gwybod bod angen i ni wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac ymgysylltu fel ein bod bob amser yn annog llif dwyffordd o wybodaeth angenrheidiol er mwyn cadw gwaith y bartneriaeth yn berthnasol i'n cymunedau, yn awr ac yn y dyfodol.

Credwn fod gan bob aelod o'r gymuned ran i'w chwarae i leihau'r effeithiau negyddol sy'n deillio o drosedd ac anhrefn, felly mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn creu'r diwylliant a'r amgylchedd sy'n angenrheidiol i unigolion ffynnu ac i ddod yn aelodau gweithredol, cadarnhaol o'u cymunedau. Rydym yn gwybod bod angen i ni wella sut mae ein gwasanaethau'n rhyngweithio i sicrhau llwybr llyfnach a mwy effeithlon i'r rhai sydd angen cefnogaeth yn ein cymunedau. Golyga achosion cymhleth yr angen i weithio mewn partneriaeth gyflawn, ac er mwyn i weithio partneriaeth ddigwydd yn effeithiol, rydym yn gwybod bod angen i ni wella diogelu cyd-destunol a'n proses o rannu gwybodaeth, yn ogystal â'r systemau technolegol a all alluogi hyn. Mae ymyrraeth gynnar, wybodus, yn egwyddor allweddol o'r strategaeth gan ei bod yn llawer gwell ceisio atal problem diogelwch cymunedol nag yw hi i ddelio â'i chanlyniadau.

Rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at Fro lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o ofn trosedd ac anhrefn. Rydym yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth i ddarparu strategaeth a fydd yn helpu i sicrhau bod y weledigaeth hon yn dod yn realiti.

BETH YW PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL?

Ers Adroddiad Scarman yn 1981, mae llywodraethau dilynol wedi cydnabod bod gwaith partneriaeth effeithiol yn arwain at well canlyniadau lleihau trosedd. Cadarnhawyd hyn gan Adroddiad Morgan yn 1991, a arweiniodd at Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Sefydlodd y Ddeddf hon Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDC).

Mae adran 5 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn diffinio Partneriaeth Diogelwch Cymunedol fel

“Cynghrair o sefydliadau sy'n cynhyrchu strategaethau a pholisïau, yn cyflawni camau gweithredu ac ymyriadau sy'n ymwneud â throedd ac anhrefn yn eu hardal bartneriaeth”.¹

Maent yn gyfrifol yn statudol am leihau trosedd ac anhrefn, y camddefnydd o sylweddau ac aildroseddu yn ardal pob awdurdod lleol.

Mae dros 300 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn y DU gyfan, gan gynnwys 21 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru, ac yn aml mae amrywiad sylweddol yn y ffordd y maent yn gweithredu.

Newidiodd cyfansoddiad a rôl y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ers 1998, trwy Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn 2007, Deddf

Llywodraeth Leol ac Iechyd 2007 a Deddf Plismona a Throsedd 2009. Yn olaf, mae Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn 2011 yn gwneud newidiadau sy'n rhyddhau rhywfaint o'r baich deddfwriaethol a oedd wedi tresmasu ar Bartneriaethau

Diogelwch Cymunedol ers 1998.

Er y gall Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fod yn gyfrifol am amrywiaeth eang o weithgareddau, mae'r

“Cynghrair o sefydliadau sy'n cynhyrchu strategaethau a pholisïau, yn cyflawni camau gweithredu ac ymyriadau sy'n ymwneud â throedd ac anhrefn yn eu hardal bartneriaeth”

1

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/37/part/I/chapter/I/crossheading/crime-and-disorder-strategies>

'I fod yn llym ar droseddu ac achosion trosedd, taclo ac atal troseddu trwy hyrwyddo dull partneriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i nodi "beth sy'n gweithio" a sut y gallaf ychwanegu gwerth'. Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, De Cymru.


hwymedigaethau statudol gwirioneddol arnynt yn weddol fychan. Ar hyn o bryd y rhain yw:

- sefydlu grŵp strategol i gyfarwyddo gwaith y bartneriaeth
- ymgysylltu yn rheolaidd ac ymgynghori â'r gymuned ynglŷn â'u blaenoriaethau a chynnydd tuag at eu cyflawni
- sefydlu protocolau a systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth
- dadansoddi ystod eang o ddata, gan gynnwys lefelau troseddau cofnodedig a phatrymau, er mwyn nodi blaenoriaethau mewn asesiad strategol blynyddol
- amlinellu cynllun partneriaeth a monitro cynnydd
- cynhyrchu strategaeth i leihau aildroseddu
- comisiynu adolygiadau dynladdiad trais yn y cartref.

Crëwyd y grŵp strategaeth gan Reoliadau 2007. Yn ôl pob golwg, ei rôl yw cymryd trosolwg o gyflawni'r cynllun asesu a phartneriaeth strategol, ond yn y bôn mae'n darparu grŵp arweinyddiaeth gadarn i'r bartneriaeth.

Noda Rheoliadau 2007 lawer o fanylion am gadeirio, amllder cyfarfodydd, sgiliau a gwybodaeth ac yn y blaen, ond cafodd y rhain eu dirymu yn Rheoliadau 2011, sy'n galluogi cyfansoddi'r grŵp strategaeth yn ffurfiol drwy ddim ond dau gynrychiolydd o awdurdodau cyfrifol, ac nid oes rhaid i'r rhain bellach fod o lefel uwch. Fodd bynnag, yn ymarferol, nid yw cyfansoddiad y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi newid yn sylweddol.

Mae pob partneriaeth yn gweithredu o amgylch cylch comisiynu blynyddol.



PARTNERIAETH BRO DDIOGELACH

Enw Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Bro Morgannwg yw "Partneriaeth Bro Ddiogelach". Mae'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn cynnwys cynrychiolwyr o:

- Awdurdod Lleol Bro Morgannwg
- Heddlu De Cymru
- Tân ac Achub De Cymru
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cynrychiolaeth Trydydd Sector
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Yn ychwanegol at ein partneriaid statudol, mae nifer fawr o bartneriaid yn y sector gwirfoddol a phreifat, yn ogystal â grwpiau cymunedol i weithredu ar y cyd a chyflwyno mentrau, a fydd yn helpu i gadw Bro Morgannwg yn ardal ddiogel i fyw, gweithio ac ymweld â hi.

Cenhadaeth y Bartneriaeth Bro Ddiogelach yw **gweithio gyda'n gilydd i Atal a Lleihau Trosedd ac anhrefn a gwella Canfyddiad y Cyhoedd, Llesiant a Diogelwch Cymunedol i'r rhai sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â Bro Morgannwg**, er mwyn cyflawni ein gweledigaeth gyffredinol o **Fro lle mae pawb yn ddiogel ac yn rhydd o ofn trosedd ac anhrefn.**

Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r gwaith uchelgeisiol y bydd y bartneriaeth yn ymgymryd ag ef er mwyn cyflawni'n cenhadaeth ar y cyd. Y Blaenoriaethau Partneriaeth newydd ar gyfer y Fro Ddiogelach yw:

ATAL a LLEIHAU

Gweithio i atal a lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i gadw pobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r Fro yn ddiogel ac yn rhydd rhag ofn trosedd.

YMGYSYLLTU EIN CYMUNEDAU

Gwella'r ffordd yr ydym yn cysylltu â'n cymunedau, yn eu cynnwys a rhoi gwybodaeth iddynt er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, y teimlad o berthyn a chydlyniant cymunedol cadarnhaol yn y Fro.

DIOGELU

Gweithio i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

GWEITHIO GYDA'N GILYDD

Cryfhau'r gwaith partneriaeth arloesol a rhannu gwybodaeth yn y Fro i wella effeithlonrwydd a gwella datrys problemau.

Mae'r strategaeth hon yn ymateb i'r gofynion a osodir arni ac a roddir ar bob un o'r sefydliadau partner gan y darnau perthnasol o ddeddfwriaeth y maent yn rhwym iddynt.



Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru

Sefydlwyd Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017 yn dilyn cwblhau Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Cymunedau Mwy Diogel –

ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Diogelwch Cymunedol yng Nghymru yr Archwilydd Cyffredinol y flwyddyn flaenorol. Wrth wraidd y rhaglen, mae gweledigaeth newydd a rennir ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, lle y mae:

1. Pob cymuned yn gryf, yn ddiogel ac yn hyderus mewn modd sy'n rhoi cyfle cyfartal a chyfiawnder cymdeithasol, gwytnwch a chynaliadwyedd i bawb;
2. Cyd-gyfrifoldeb asiantaethau'r llywodraeth, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yw gweithio gyda'i gilydd a chyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a'r sector preifat i ymdrin â gweithgaredd neu ymddygiad sy'n anghyfreithlon, yn wrthgymdeithasol, yn niweidiol i unigolion a chymdeithas ac i'r amgylchedd;
3. Rhannu gwybodaeth a sicrhau ymyrraeth gynnar â gweithredu prydlon, cadarnhaol i ymdrin â materion lleol ac ymdrin â gwendidau.

Seilir y weledigaeth hon ar chwe egwyddor allweddol a set o 11 o ymrwymadau gan Lywodraeth Cymru a luniwyd i gefnogi adnewyddu gwaith y bartneriaeth diogelwch cymunedol leol a rhanbarthol i sicrhau ei bod yn:

- cael ei harwain gan wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- cael ei chefnogi gan sgiliau a gwybodaeth briodol;
- gydag adnoddau cynaliadwy sy'n briodol yn lleol;
- yn ymgysylltu a chynnwys dinasyddion;
- yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar ag y bo modd;
- yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor.



Ddeddf Llesiant Cymunedau'r Dyfodol (Cymru) 2015


Mae Deddf Llesiant Cymunedau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau, a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf wedi datblygu "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n galw ar sefydliadau i ystyried 5 ffordd o weithio er mwyn

cyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf. Y 5 ffordd o weithio yw:

1. Hirdymor – Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
2. Atal – Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
3. Integreiddio – Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
4. Cydweithio – Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
5. Cynnwys – Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau
6. Bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal meant yn ei gwasanaethu

“Dylem gofleidio arloesedd a derbyn bod rhaid i ni fod yn llai gwrth-risg wrth wneud hynny. Rhaid i'r llywodraeth, cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n eu harchwilio annog cymryd risgiau a reolir yn dda.” Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Ein Bro - Ein Dyfodol



Ein Bro - Ein Dyfodol, yw cynllun pum mlynedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro, a ddatblygwyd yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd arno gan Ddeddf Llesiant Cymunedau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd gofyn i'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach

gyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflenwi ei 4 amcan:

- Amcan 1: Galluogi pobl i gael eu cynnwys a chymryd rhan yn eu cymunedau lleol a llunio eu gwasanaethau lleol
- Amcan 2: Lleihau tlodi ac ymdrin ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd
- Amcan 3: Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant
- Amcan 4: Diogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd.

Cynlluniau'r Bartneriaeth

Mae'n ofynnol i Strategaeth Bro Ddiogelach sicrhau ei bod yn ymateb yn uniongyrchol i, neu weithio ar y cyd â, y blaenoriaethau a sefydlwyd yng nghynlluniau ei phartneriaid.

Heddlu De Cymru

Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu (2017-2021)

Mae Heddlu De Cymru yn gosod egwyddorion allweddol yn eu lle i gadw cymunedau'n ddiogel.

Y rhain yw:

- Lleihau ac atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i gadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau
- Gwella'r ffordd yr ydym yn cysylltu â, yn cynnwys, a rhoi gwybodaeth i'n cymunedau
- Amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau
- Gwneud yn siŵr bod y system cyfiawnder troseddol leol yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon, gan ddiwallu anghenion dioddefwyr a herio troseddwy.
- Cyfrannu at y gofyniad plismona strategol a plismona digwyddiadau mawr llwyddiannus.
- Gwario arian yn ddoeth i warchod plismona yn y gymuned.



Gwasanaeth Prawf

Cenedlaethol

Fframwaith i Gefnogi Newid

Cadarnhaol i'r Rhai sydd mewn

Perygl o Droseddu yng Nghymru 2018-2023

National
Probation
Service



Meysydd Blaenoriaeth

- Lleihau nifer y menywod yn y system cyfiawnder troseddol
- Herio cyflawnwyr cam-drin domestig; eu dal yn atebol am eu gweithredoedd a darparu ymyriadau a chefnogaeth i newid eu hymddygiad
- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cyn-Bersonél y Lluoedd Arfog
- Darparu Cefnogaeth i Oedolion Ifanc/Ymadawyr Gofal
- Cefnogi Teuluoedd Troseddwy yn dilyn eu dedfrydu
- Grwpiau Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Cyngor Bro Morgannwg

Strategaeth Gymunedol 2011-2021

Mae Awdurdod Lleol Bro Morgannwg yn

gwneud y Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn

uniongyrchol gyfrifol am gyflenwi Canlyniad Blaenoriaeth 9 ei Strategaeth Gymunedol:

[Bod trigolion ac ymwelwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel a bod y Fro yn cael ei chydabod fel ardal trosedd isel.](#)



Cynllun Corfforaethol (2016-2019) a Chynllun Gwella (2019-2020) Cyngor Bro Morgannwg

Bob blwyddyn, mae Cyngor Bro Morgannwg yn cyhoeddi ei amcanion blynyddol sy'n gysylltiedig â'r Canlyniadau a nodir yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor. Mae'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn gyfrifol am gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r canlyniadau a'r amcanion canlynol.

Well-being Outcome	Well-being Objectives
	Objective 1: Reducing poverty and social exclusion Objective 2: Providing decent homes and safe communities.
	Objective 7: Encouraging and promoting active and healthy lifestyles. Objective 8: Safeguarding those who are vulnerable and promoting independent living.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Llunio ein llesiant i'r dyfodol



- Canlyniadau sydd o bwys i bobl (wedi'u cysylltu'n benodol â'r nodau ar ehangu ar wasanaethau ataliol a hybiau llesiant)
- Sicrhau bod Gwasanaethau'n gynaliadwy (cyflwyno cyswllt iechyd meddwl)

- Ein Diwylliant - bod yn lle gwych i weithio (Gwelliant ar YGG ac ymddygiad ymosodol a brofir yn yr amgylchedd gofal iechyd)
- 1. Gwell iechyd a llesiant emosiynol plentyndod
- 2. Nifer y bobl dros 75 oed sy'n byw yn eu cartref eu hunain
- 3. Lleihad ym mhob achos o farwolaeth gynamserol

Tân ac Achub De Cymru

Gwneud De Cymru yn ddiogelach drwy leihau risg

Mae eu cynllun cyfredol yn nodi'r canlyniadau canlynol i gyflawni'r nod hwn:

- Gweithio gydag eraill i amddiffyn ein cymunedau rhag niwed neu'r risg o niwed
- Datblygu ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o ymgysylltu a chyfathrebu â'n cymunedau am ein gwasanaethau



- Sicrhau ein bod yn denu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu ein cymunedau ac sy'n gallu darparu gwasanaethau effeithiol heddiw ac yn y dyfodol

- Lleihau effaith ein Gwasanaeth ar yr amgylchedd i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol
- Sicrhau ein bod yn defnyddio technoleg i alluogi darparu gwasanaeth yn effeithlon ac yn well

Meysydd ystyriaeth ychwanegol.

Yn ychwanegol at y cynlluniau a'r ddeddfwriaeth a amlinellir yn y bennod hon, bydd y Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi'r blaenoriaethau a nodwyd mewn dogfennau allweddol eraill sy'n dylanwadu ar waith cyffredinol y bartneriaeth.

Blaenoriaethau a nodwyd gan Asesiad Angen Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2016-2017

Anghenion gofal a chefnogaeth

- Cefnogaeth i blant a phobl ifanc y mae perthynas rhieni a thrais domestig yn effeithio arnynt;
- mynediad at wasanaethau gan gynnwys gofal sylfaenol ac iechyd meddwl;
- cefnogaeth i bobl ag ADHD ac awtistiaeth;
- mynediad at wasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen;
- cefnogaeth i ofalwyr ifanc;
- cynnwys plant yn fwy mewn penderfyniadau a wneir amdanynt;

- pontio llyfnach o wasanaethau plant i oedolion;
- llety;
- addysg a phrentisiaethau galwedigaethol;
- anghenion cynyddol gymhleth; anghenion penodol plant a phobl ifanc gydag anabledd

Materion atal

- Meithrin cydberthnasau iach;
- sgiliau bywyd ymarferol gan gynnwys sgiliau ariannol;
- ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys bwyta'n iach, gweithgaredd corfforol a chwarae;
- mwy o ffocws ar brofiadau niweidiol plentyndod (ACEs);
- camau gweithredu i leihau cyfran y plant nad

Cynlluniau Eraill a Dogfennau Allweddol



- Cynllun Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Trais yn y Cartref a Thrais Rhywiol
- Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid
- Strategaeth Gomisiynu Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro
- Cynllun Cyflenwi Cydlyniant Cymunedol 2017-2020
- Astudiaeth Profiadau Niweidiol Plentyndod Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Deddf Trosedd a Phlisma Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

dynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)

DATBLYGIAD Y STRATEGAETH HON

Mae'r Bartneriaeth wedi gweld esblygiad sylweddol ers ei sefydlu yn dilyn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Cafwyd sawl newid yn strwythur y Bartneriaeth ac mae'r gwaith y mae'r Bartneriaeth yn ei fonitro a'i oruchwylio wedi symud ymlaen dros y blynyddoedd. Gyda 2018 yn nodi 20^{fed} pen-blwydd cychwyn y Bartneriaeth, teimlwyd bod hyn yn rhoi cyfle synhwyrol i adolygu strwythur, trefniadau llywodraethu, proses ac arferion y Bartneriaeth a datblygu strategaeth i fod yn asgwrn cefn byw sy'n darparu strwythur a chyfeiriad i fodolaeth y Bartneriaeth.

Adolygwyd aelodaeth y bwrdd a gwnaed penderfyniad i ddychwelyd y bwrdd Partneriaeth i fod yn gorff strategol sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn i oruchwylio'r camau yn erbyn y Cynllun Cyflenwi a monitro unrhyw risgiau uwch y mae'r Bartneriaeth yn eu hwynebu. Bydd grŵp gweithredol yn eistedd o dan y Bwrdd Strategol. Bydd y grŵp gweithredol hwn yn cyfarfod bob chwarter, mewn pryd i adrodd ar bob diwedd chwarter. Bydd y grŵp gweithredol yn derbyn adborth gan bob un o'r is-grwpiau perthnasol a grwpiau rhanbarthol eraill i sicrhau bod llif y wybodaeth i mewn ac allan o'r Bartneriaeth yn effeithiol i gynnal goruchwyliaeth wybodus ar

y materion sy'n effeithio ar drosedd ac anhrefn ym Mro Morgannwg. Bydd gan y Grŵp Gweithredol y cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun Cyflenwi a bydd yn cynnwys aelodaeth ehangach o'r sefydliadau hynny sydd â chyfrifoldeb yn y blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth hon. Datblygwyd trefniant llywodraethu newydd yn unol â'r strwythur newydd hwn a'r Strategaeth, i sicrhau bod atebolrwydd priodol am y camau a nodir yn y Cynllun Cyflenwi. Mae cysylltiad clir rhwng pob blaenoriaeth â nifer o is-grwpiau a fydd yn gyfrifol am gydlynu a chyflenwi gwahanol rannau o'r Cynllun Cyflenwi.

Un peth a ddaeth yn eglur drwy gydol y broses ddatblygu oedd bod llawer o ddryswch ynghylch beth yw'r Bartneriaeth, pwy yw'r Bartneriaeth a beth mae'r Bartneriaeth i fod i'w wneud. Camsyniad clir yw bod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn swyddogaeth y Cyngor, neu'n gorff sy'n gwahodd partneriaid eraill i gysylltu ag ef, yn hytrach na bod yn Bartneriaeth o bobl gyfartal sy'n dal yr un faint o gyfrifoldeb am y Bartneriaeth a'i swyddogaethau.

“Mae'n teimlo fel bod brand y Fro Ddiogelach braidd yn wan, heb neb yn wirioneddol deall yn iawn swyddogaeth pwy yw, neu nad adran arall o Gyngor y Fro yw. Rwy'n meddwl oherwydd mai'r cyngor yw'r Tîm Diogelwch Cymunedol, cymerir yn ganiataol mai'r un peth yw'r Bartneriaeth a'r Tîm” Staff o Sefydliad Partneriaeth

Bydd y strategaeth, strwythur a threfniant llywodraethu newydd hwn yn cael ei ail-lansio gyda Strategaeth Gyfathrebu newydd i helpu'r holl sefydliadau Partner, yr holl randdeiliaid a holl drigolion y Fro i ddeall beth yw'r Bartneriaeth a beth fydd yn ei gyflawni.

Byddwn yn adeiladu brand y Fro Ddiogelach i sicrhau ei fod yn frand cryf, hawdd ei adnabod, y gall pobl uniaethu ag ef, ei ddeall ac y gall partneriaid ymrwymo iddo.

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd Partneriaeth sy'n edrych ar wahanol rannau o'r Strategaeth, cytunwyd mai'r 4 flaenoriaeth oedd y ffordd fwyaf priodol o symud y Bartneriaeth ymlaen ar ei llwybr tuag at leihau ac atal trosedd, lleihau ofn trosedd a diogelu'r rhai agored i niwed yn ein cymdeithas.

Cynhaliwyd gweithdy diwrnod datblygu gyda phresenoldeb aelodau staff o wahanol hynafedd o nifer o sefydliadau partner, i greu'r Cynllun Cyflenwi a fydd yn darparu'r camau ar gyfer y Bartneriaeth dros y 3 blynedd nesaf. Mapiodd y gweithdy wasanaethau sy'n gweithio ar hyn o bryd i gael effaith ar Drosedd ac Anhrefn yn y Fro, gyda chydabyddiaeth

o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella. Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr hefyd ddarparu SWOT i'r bartneriaeth, gan gynnig eu canfyddiadau gonest o'r hyn sy'n gweithio'n dda ar gyfer y Fro Ddiogelach ar hyn o bryd a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda neu sy'n bygwth ei bodolaeth. Roedd edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael yn cynnig man cychwyn i'r gweithdai terfynol, a aeth ati, gyda chymorth dull chwe het meddwl Edward de Bono, i ddatblygu'r amcanion, datblygu amcanion, a chmau gweithredu i gyflawni'r Blaenoriaethau Strategol.

SWOT Y BARTNERIAETH BRO DDIOGELACH

S

Perthynas tîm a phartneriaeth
Parodrwydd i newid a gwella o fewn asiantaethau
Nod cyffredin
Rhannu gwybodaeth
Set wybodaeth a sgiliau staff
Wedi'i hen sefydlu - mae'n bodoli ac mae wedi bod ers amser maith
Yn gwasanaethu cymuned fach
Is-grŵp statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Asiantaethau allweddol yn cymryd rhan
Presenoldeb rhagorol yn y bwrdd
Cafwyd momentwm ers datblygu'r strategaeth hon
Mae pob un yn dod ymlaen yn dda yn y bartneriaeth ac yn hyrwyddo i arwain yn y broses
Perthynas dda, onest ac ymroddedig
Rhannu Data a Gwybodaeth (LCC, YGG) - Bod yn Agored = YMDDIRIEDAETH
Gwarchod cymdogaeth weithredol gyda 240 o gynlluniau.
Dinasyddion gweithredol
Cydleoli rhai partneriaid

W

Diffyg cysondeb / ddim bob amser yn ddata sy'n adlewyrchu'r sefyllfa yn gywir
Ddim bob amser yn rhannu gwybodaeth ag asiantaethau / gweithio mewn seilo
Asiantaethau yn defnyddio gwahanol systemau i gofnodi gwybodaeth
Cyllidebau, cyllid cynaliadwy a diffyg adnoddau
Brandio'r Fro Ddiogelach - brand gwan
Ymwybyddiaeth o beth yw'r Fro Diogelach
Cyfathrebu
Dim llawer o wybodaeth yn cael ei rhannu â chymunedau.
Canfyddiad o droseddu
Goddefgarwch y cyhoedd
Gwasanaethau ieuencid
GDPR
Gwydnwch
Blaenoriaethau gwahanol
Aelodaeth
Diffyg ifanc arbenigol

O


Datblygu ymgysylltiad rhwng cenedlaethau
Rhannu gwybodaeth gyda'r bartneriaeth a'r cyhoedd
Creu a monitro strategaeth dda sy'n gweithio.
Gweithio ataliol, trosedd, colli tenantiaeth
Cyfarfod rheolaidd ag asiantaethau allweddol
Defnyddio technoleg ddigidol a chyfryngau cymdeithasol
Rhwydweithio - nid digwyddiad unwaith ac am byth ond rheolaidd
Rhannu mwy o wybodaeth gyda'r cyhoedd
Cael gwell ffocws ar y defnyddiwr terfynol
Gwell rhyngweithio â'r gymuned.
Cael cronfa ddata leol y mae pob asiantaeth yn bwydo iddi gyda setiau data gwell
Defnyddio ffynonellau gwybodaeth sydd eisoes ar gael
Cysylltu â sefydliadau eraill nad ydynt yn cymryd rhan
Cyflenwi trwy ddull hyb (Yn debyg i Safle Gorsaf Dân Casnewydd / Malpas)
Gweithio amlasiantaethol = gwell dealltwriaeth a rhannu gwybodaeth
Defnyddio'r DAARC fel astudiaeth achos.
Ei gwneud yn glir bod gwybodaeth yn dod allan o'r PDC yn hytrach na'r cyngor


T

Gadael y cyhoedd i lawr os na chyflawnir y canlyniadau
Colli staff gwybodus
Cymuned sy'n heneiddio a beth mae hynny'n ei olygu o ran adnoddau
Brexit - yr angen i fod yn barod
Diffyg cyllid cynaliadwy yn y dyfodol
Canfyddiad y cyhoedd o droseddu, anhrefn ac o'r bartneriaeth
Mae diffyg neu leihau adnoddau yn golygu mwy o bwysau ar staff a mwy o bwysau ar weithio mewn partneriaeth
Mae pobl yn gweld y Fro Ddiogelach fel y Cyngor yn hytrach na phartneriaeth
Gormod o amser wrth ddesg yn casglu data dim digon o amser yn gweithio gyda phobl / cleientiaid
Diffyg presenoldeb asiantaethau iechyd meddwl a gwasanaethau oedolion.
Adrannau sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain yn ceisio parhau â chyllidebau is
Newid deddfau - gan gynnwys y GDPR newydd
Technolegau digidol ac amlygiad (weithiau'n negyddol) a ddaw yn sgil cyfryngau cymdeithasol.

Mae Partneriaeth y Fro Diogelach wedi ymrwmo i fod â set gadarn o strwythurau llywodraethu corfforaethol er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn y ffordd orau

Siart Llywodraethu



 Grwpiau sy'n disgwyl i gael eu ffurfio

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro yn cynnwys uwch aelodau o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro yn derbyn gwybodaeth gan Grŵp Strategol y Fro Ddiogelach, yn manylu ar berfformiad yn erbyn y strategaeth yn unol â'r cyfarfodydd arfaethedig ddwywaith y flwyddyn.

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol am gytuno ar gyfeiriad y Bartneriaeth Bro Ddiogelach ac yn gyfrifol am drosglwyddo gwybodaeth strategol i lywio holl gamau gweithredu y bartneriaeth.

Grŵp Strategol y Fro Ddiogelach

Bydd Grŵp Strategol y Fro Ddiogelach yn derbyn adroddiadau perfformiad, risg uwch ac ariannol gan Grŵp Gweithredol y Fro Ddiogelach.

Grŵp Strategol y Fro Ddiogelach fydd yn gyfrifol am oruchwylio perfformiad,

rheoli risg gyffredinol a sicrhau craffu priodol ar benderfyniadau ariannol perthnasol. Bydd y grŵp bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn agored i graffu; bod llywodraethu yn dryloyw ac i safon gyson uchel, a bod camau gweithredu Cynllun Cyflenwi'r Bartneriaeth yn gyson â rhai'r sefydliadau sy'n aelodau, ac yn cael eu harwain gan wybodaeth.

Grŵp Gweithredol y Fro Ddiogelach

Mae Grŵp Gweithredol y Fro Ddiogelach yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r is-grwpiau a bydd yn derbyn gwybodaeth gan bob un o'r is-grwpiau hynny i graffu, trafod ac adolygu.

Bydd y Grŵp yn rheoli'r gofrestr risg a'r cofnod materion, a bydd yn gyfrifol am rannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno i'r bwrdd am benderfyniad

Byddwn yn adolygu'r holl brotocolau llywodraethu i sicrhau atebolrwydd mwy ffurfiol a chadarn.

yn erbyn y strategaeth yn gyffredol, yn unol ag ymarfer gorau, yn wybodus yn lleol ac yn gywir.

Grwpiau Rhanbarthol

Bydd Grŵp Gweithredol y Fro Ddiogelach yn rhannu gwybodaeth gyda'r grwpiau rhanbarthol sydd mewn Partneriaeth a bydd yn datblygu protocolau i sicrhau bod strategaethau a chynlluniau cyflenwi yn cael eu creu mewn ymgynghoriad i lywio datblygiad ac osgoi dyblygu.

Is-grwpiau

Dan y grŵp gweithredol, ceir cyfres o is-grwpiau, bob un yn gyfrifol am gyflenwi llinynnau penodol o Strategaeth y Fro Ddiogelach.

BRO MORGANNWG

Sir yw Bro Morgannwg yn Ne Cymru sy'n ffinio â Phen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Rhondda



Cynon Taf.


Mae'n 15^{fed} o ran maint o siroedd Cymru, ar 335km². Mae gan Fro Morgannwg ddaearyddiaeth amrywiol yn cynnwys cymunedau arfordirol, pentrefi gwledig

² Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v1.0.

³

<https://statscymru.llyw.cymru/Cata>

a'r dref fwyaf yng Nghymru, sef Y Barri.



Yn ôl amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2018, roedd y boblogaeth yn 132,165.²

Roedd 51% o'r boblogaeth yn fenywod a 48% yn ddyonion.³

Roedd 18.5% o'r boblogaeth rhwng 0-15, 60.5% yn 16-64 a 21% yn 65+ oed.

Mae rhagamcanion poblogaeth yn amcangyfrif y bydd y boblogaeth 0-15

logue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year

oed a 16-64 oed yn gostwng erbyn 2036 tra rhagwelir y bydd poblogaeth pobl 65+ yn cynyddu ac y bydd yn uwch na chyfartaledd Cymru erbyn 2036.


Mae gan y Fro 1,143 o aelodau o'r lluoedd arfog a chyfran uchel o gyn-filwyr, ar 11.96 o gyn-filwyr am bob 1,000 o drigolion.

Mae 97% o boblogaeth y Fro yn dynodi eu hunain yn Wyn, 1.4% fel De Asiaidd a 1.1% fel du.⁴ Roedd gan y Fro falans mudo mewnol negyddol yn 2015; mae mudo mewnol yn cyfeirio at

⁴

<https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011censusdata/2011censusdatacatalogue/keyandquickstatistics>

bobl sy'n symud rhwng gwledydd y DU. Mae mwy o bobl o'r Fro symud i wledydd eraill y DU nag sydd wedi symud i'r ardal o wledydd y DU.⁵



Dim ond 3% sy'n gallu siarad Cymraeg, gyda 25% o'r rheiny yn ei siarad yn ddyddiol. Ni all 87% siarad unrhyw Gymraeg. Mae arolwg poblogaeth mwy

⁵


<https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011censusdata/2011censusdatacatalogue/origindestinationstatistics>

diweddar yn dangos fod 20.7% o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg.⁶

Ar hyn o bryd, mae canran o boblogaeth y Fro sy'n adrodd eu bod yn dioddef cyfyngiadau ar weithgareddau oherwydd anabledd yn un o'r isaf yng Nghymru.

Mae gan y Fro raniad poblogaeth o 41% o bobl yn byw yn y Barri, 29% yn Nwyrain y Fro a 30% yng Ngorllewin y Fro.

Dangosodd tystiolaeth hanesyddol gan lechyd Cyhoeddus Cymru bod gan Fro Morgannwg un o'r bylchau anghydraddoldeb mwyaf yng Nghymru rhwng y menywod mwyaf a lleiaf



difreintiedig. Mae ardaloedd sydd â'r disgwyliad oes iach isaf yn cydberthyn i'r rhai sydd fwyaf difreintiedig, fel y nodwyd yn WIMD 2014, ac maent wedi'u lleoli'n bennaf yn rhan ddwyreiniol y Barri, mewn ardaloedd fel Gibbonsdown, Castleland a Buttrills. Mae gan yr ardaloedd hyn hefyd lefelau

Welsh-
Language/annualpopulationsurveyestimates

“Mae Bro Morgannwg yn rhan amrywiol a hardd o Gymru. Nodweddir y sir gan gefn gwlad bryniog, cymunedau arfordirol, trefi prysur a phentrefi gwledig, mae'n cynnwys Maes Awyr Caerdydd, amrywiaeth o ddiwydiant a busnesau. Mae'r ardal yn elwa o gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da ac mae mewn sefyllfa dda yn y rhanbarth fel ardal ar gyfer cyflogaeth, fel cyrchfan i ymwelwyr ac fel lle i fyw” Asesiad

Llesiant y Fro


uwch o ordewdra, lefelau ysmegu uwch a chyfraddau marwolaeth uwch sy'n benodol i alcohol. Dengys data WIMD 2017 bod gan ardaloedd o'r Barri lefelau amddifadedd o ran incwm sy'n uwch nag ardaloedd yn Nwyrain a Gorllewin y Fro. Yn yr un modd mae saith LSOA (Ardal

ofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspea
kwelsh-by-localauthority-measure

Gynnyrch Ehangach Haen Is) ymhlith y 10% uchaf o LSOAs difreintiedig yng Nghymru yn ôl Parth Cymunedol WIMD - mae pob un wedi'i leoli yn y Barri a cheir cyfraddau troseddu uwch yn yr ardaloedd mwy difreintiedig hyn.

⁶
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey->

GWASANAETHAU'R FRO



Ysbyty Llandochau

Ysbyty Gymunedol y Barri



64 o Ysgolion

49 Cynradd

9 Uwchradd


4 Arbennig

2 Annibynnol

4 Gorsaf Dân

4 o orsafoedd Heddlu

- Y Barri (agored i'r cyhoedd)
- Y Bont-faen
- Penarth



Llanilltud Fawr

4 o Gyngorau Tref

22 o Gyngorau Cymuned

23 Meddygfa



Gwasanaethau Diogelwch Cymunedol

- Trefi Taclus (Materion Cymunedol)
- Diwrnod Hwyl i Denantiaid / Diwrnod Hwyl y Fro Diogelach - diwrnod ymgysylltu Bro Ddiogelach
- Diwrnod 'Festivale'/ Hwyl - Digwyddiadau
- Mentrau amlasiantaethol
 - o Caethwasiaeth Fodern
 - o Twyll
 - o Safonau Masnach/ AGPh / Heddlu / Cyngor / Ysgol / Tân
- Cadstock (VOGC GVC)
- PSG
- Rheoli Troseddwy yn Integredig
- Dyfodol - bellach yng ngorsaf yr heddlu.
- Gwarchod Cymdogaeth
- Ymgysylltiadau
- Proses YGG
- Rhannu Data
- Negeseuon Cymunedol
- Gwarchod Gwledig
- Bancio amser
- Gwella Diogelwch
- Diwrnodau Tipio Anghyfreithlon – Codi sbwriel
- DAARC
- Trwyddedu
- SRS
- Tîm YGG
- AST AyF
- IDVA Iechyd

Yn ystod y Gweithdy Datblygu Strategaeth, mapiodd partneriaid y projectau, y gwasanaethau a'r grwpiau ledled y Fro y gwelwyd eu bod yn gweithio'n dda (colofn werdd ar y chwith) a'r rhai y gwelwyd bod angen eu gwella (colofn goch ar y dde)

- PYVs a Chadetiaid y Gwasanaeth Tân
- Iechyd Meddwl - trothwyon uchel
- Anghenion Anabledd - gwell gwasanaethau
- Troseddau Casineb - Atal / ymateb cydgysylltiedig
- Iechyd meddwl / cyffuriau a gwaith anghenion cymhleth
- Lefelau staffio
- Gweithio gyda drwgweithredwyr
- Mae Gwasanaeth IDVA yn gweithio'n dda ond mae'n cael ei danariannu
- Nid yw OP Encompass wedi cychwyn.
- Barn wahanol ynghylch a yw grŵp llywio MARAC yn gweithio'n dda ai peidio • Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol
- Gwarchod maes awyr
- Gwasanaeth Ieuencid / Darpariaeth Stryd (Clybiau Ieuencid ac ati)
- Grŵp Cydlyniant Cymunedol

YR ASESIAD STRATEGOL

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol gynnal Asesiad Strategol i sicrhau bod cynlluniau gwaith blynyddol yn cael eu seilio ar anghenion sydd â thystiolaeth ohonynt. Mae'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach wedi dibynnu o'r blaen ar yr Asesiad Strategol a gynhaliwyd gan ei bartneriaid i lywio arfer gorau. Fodd bynnag, mae rhannu gwybodaeth yn rhywbeth a nodwyd fel maes sydd angen ei wella rhwng partneriaid. Teimlir yn aml bod gorddibyniaeth ar ddata'r Heddlu, a chyda'r diffyg rhannu data cydgysylltiedig wedyn, nad yw'r bartneriaeth bob amser yn gweithio oddi ar y setiau data mwyaf dibynadwy a chyfoes.

Cynhaliwyd Asesiad Strategol i gasglu gwybodaeth gan bartneriaid a sefydliadau eraill ynghylch y

Byddwn yn edrych ar ein trefniadau rhannu gwybodaeth ac yn datblygu WASPI gyda phrotocol sy'n creu dulliau haws, cliriach a mwy llyfn ar gyfer rhannu gwybodaeth gywir, berthnasol.

"Rhannu gwybodaeth yw conglaen cyflenwi cyd-ddealltwriaeth o'r problemau a dod o hyd i atebion ar y cyd. Mae'r wybodaeth gywir yn galluogi partneriaid i gynnal ymyriadau diogelwch cymunedol wedi'u targedu ar sail tystiolaeth, ac i werthuso eu heffaith. Dim ond pan fydd partneriaid yn gallu cyrchu gwybodaeth berthnasol, gadarn a chyfoes o ystod eang o ffynonellau y gellir sicrhau canlyniad gwell dull o ddatrys problemau sy'n seiliedig ar wybodaeth, a datrys problemau." Cyflenwi Cymunedau Mwy Diogel: Canllaw i bartneriaeth waith effeithiol, Swyddfa Gartref 2007

materion sy'n effeithio ar ddiogelwch cymunedol ar draws y Fro. Mae'r asesiad hwn ar gael ochr yn ochr â'r strategaeth hon ac mae'n



cyfeirio at y nodweddion data trwy'r Strategaeth hon. Ar hyn o bryd, galluogir rhannu gwybodaeth yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol trwy'r pwerau cyfreithiol a roddwyd gan **Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998** (Adrannau 115 a 17A), **Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006** a **Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Craffu) 2009** a **Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaeth Llys 2000**.




BLAENORIAETH 1 - Atal a lleihau troseddu.

Gweithio i atal a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i gadw pobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r Fro yn ddiogel, ac yn rhydd o ofn trosedd.

CYFANSWM TROSEDDAU

Cofnodwyd 10,573 o droseddau ym Mro Morgannwg rhwng Mai 2018 ac Ebrill 2019. Dyma'r raddfa isaf mewn cymhariaeth ag ardaloedd PDC eraill yn Ne Cymru ac ymhlith yr isaf o'i gymharu ag ardaloedd tebyg ar draws y DU.



Yn unol â'r duedd ar draws y DU gyfan, gwelodd Bro Morgannwg gynnydd yn y nifer o droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhybuddio nad yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cynnydd yn y lefelau gwirioneddol o drosedd gan fod data'r heddlu hefyd yn adlewyrchiad o

Byddwn yn adolygu'r hyn a gesglir gan asiantaethau ar hyn o bryd ac yn sefydlu dull amlasiantaethol sy'n lleihau dyblygu ac yn caniatáu mynediad gwell i systemau partneriaid.

weithgaredd plismona, arferion cofnodi a pharodrwydd dioddefwyr i adrodd.

Rhwng 18 Ebrill ac 18 Rhagfyr, troseddau treisgar (gydag anaf a heb anaf) oedd y math o droseddau a gyflawnwyd amlaf ar 1,460, ac yna difrod troseddol, mewn 814 o ddigwyddiadau ac yn olaf stelcio ac aflonyddu gyda 784 o ddigwyddiadau. O ran trosedd Trais, trais gydag anaf a gyflawnwyd amlaf, mewn 773 o ddigwyddiadau.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn troseddau a gofnodwyd mewn:

- trosedd casineb (cynnydd o 44%)
- stelcio ac aflonyddu (cynnydd o 34%) a
- throseddau amrywiol (20%).

Rhwng 2017 a 2018, y gostyngiadau mwyaf a welwyd oedd mewn:

- byrgleriaeth mewn busnesau a'r gymuned (-39%)
- lladrata (-33%)
- a dwyn beiciau (-27%)



Castleland yw'r ward sydd â'r gyfradd droseddu uchaf fesul 1,000 o'r boblogaeth, yna Llandochau gyda chyfradd droseddu fesul 1,000 o'r boblogaeth o 134. Arhosodd hyn yn gyson dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yr ardaloedd gyda'r gyfradd droseddu isaf fesul 1,000 o'r boblogaeth yw Sili a Llandŵ/Ewenni, sydd hefyd wedi gweld gostyngiad mewn troseddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf o 23% a 19%, yn y drefn honno.

Yng Ngwenfô y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd droseddu fesul 1,000 o'r boblogaeth (44%), yna Alexandra (29.8%) a Saint-y-brid (24.3%).

Yn y Barri, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Illtyd (16.2%) yna Court (10.8%). Dim ond yn Gibbonsdown y cafwyd gostyngiad mewn troseddu o 8%.

TASGAU DYDDIOL

Bob bore mae'r Heddlu'n cwrdd yng Ngorsaf Heddlu'r Barri i drafod y troseddau sydd wedi digwydd dros y 24 awr diwethaf. Mynychir y cyfarfodydd hyn gan Dîm Diogelwch Cymunedol yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod gwybodaeth

Byddwn yn cynnwys y gymuned i ddarparu atebion cymunedol i broblemau lleol

Byddwn yn ymchwilio i ymatebion i droseddu sy'n yn seiliedig ar le.

yn cael ei rhannu'n briodol lle mae digwyddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn debygol o fod angen dull partneriaeth.

Y TÎM YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Mae hwn yn dîm sy'n cynnwys heddwys ac aelodau Tîm Diogelwch Cymunedol yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ymdrin ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn y Fro.


Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn diffinio YGG fel hyn:

'Yn gweithredu mewn modd a achosodd, neu a oedd yn debygol o achosi aflonyddu, dychryn neu drallod i un neu fwy o bobl nad oeddent o'r un cartref â'r (diffynnydd).'

Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ymdrin ag ystod eang o weithgaredd annerbyniol sy'n achosi niwed i unigolion, eu cymuned neu'r amgylchedd. Gallai hyn fod yn weithred gan rywun arall sy'n eich gadael chi'n teimlo braw, aflonyddu neu ofid. Mae hefyd yn cynnwys ofn trosedd neu bryder am ddiogelwch cyhoeddus, anhrefn cyhoeddus neu niwsans cyhoeddus.

Mae Heddlu De Cymru yn categoreiddio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o dan un o'r penawdau canlynol:

1) Niwsans (yn cynnwys presenoldeb delwyr neu ddefnyddwyr cyffuriau, rhoi cerbydau ar dân, cymdogion swllyd a llithio)



Niferoedd yn Gostwng:
2184 digwyddiad o YGG rhwng 2018/2019
Ymhlith yr isaf yn Ne Cymru

Byddwn yn parhau i fonitro ac ymateb i Drosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gan sicrhau ymatebion partneriaeth symlach sy'n mynd ati i leihau trosedd ac anhrefn yn y Fro.

- 2) Personol - (yn cynnwys gwahanol ffurfiau o fygwth ac aflonyddu, fel bygythiadau geiriol a galwadau ffôn niwsans)
- 3) Amgylcheddol (yn cynnwys graffiti, difrod i ddodrefn stryd a thipio anghyfreithlon)

Yn y Fro, bu 2184 o achosion o YGG rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019. Mae lefelau YGG, pan ddadansoddir hwy fesul 1000 o'r boblogaeth, wedi aros yr isaf yn Ne Cymru dros y tair blynedd diwethaf (ac eithrio Castell-nedd Port Talbot yn 2016.)

Mae cyfraddau YGG yn uwch trwy gydol misoedd yr haf na misoedd y gwanwyn.

Mae'r Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn gweithio o dan y pwerau a gyhoeddwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014 sy'n ceisio rhoi dioddefwyr yn gyntaf i roi pŵer i bobl leol a galluogi gweithwyr proffesiynol i ddod o hyd

i'r atebion gorau ar gyfer eu hardal leol.

Mae gan y tîm bŵer i gyhoeddi:

Gwaharddebau Gwaharddeb sifil yn unig yw hon, ar gael yn y llys sirol i oedolion a'r llys ieuencid i bobl ifanc 10 i 17 oed. Bydd yn caniatáu i ystod eang o asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, cynghorau lleol a landlordiaid cymdeithasol, ddelio'n gyflym ag unigolion gwrthgymdeithasol, gan atal ymddygiad ar ei gychwyn cyn iddo waethygu.

Gorchmynion Ymddygiad Troseddol Ar gael yn dilyn euogfarn am unrhyw drosedd a gall ymdrin ag achosion sylfaenol yr ymddygiad trwy ofynion cadarnhaol newydd. Mae torri'r gorchmynion yn drosedd gydag uchafswm cosb o hyd at bum mlynedd yn y carchar i oedolion. Mae'n dangos i'r troseddwr a'r gymuned ddifrifoldeb y toriad.

Gorchmynion Cau Safle Mae hyn yn galluogi swyddogion i gau safle sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol am uchafswm o 6 mis.

Pwerau Gwasgaru Mae'r rhain yn galluogi swyddogion i'w gwneud yn ofynnol i berson sydd wedi cyflawni YGG, neu'n debygol o gyflawni YGG, i adael ardal benodol a pheidio â dychwelyd am hyd at 48 awr.

Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol Mae'r rhain yn cynnwys Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol, Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus a Gorchmynion Cau. Mae'r

pwerau hyn yn caniatáu gweithredu cyflymach a mwy effeithiol ac maent ar gael i fwy o asiantaethau eu defnyddio i ymdrin ag ystod eang o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throeddol sy'n benodol i le.

Ymgysylltu lleol ac atebolrwydd Mae Unioni Cymunedol yn rhoi llais i ddiodefwr troseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o ran cosbi'r troseddwr y tu allan i'r llys, tra bod y Sbardun Cymunedol yn rhoi hawl i ddiodefwr ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus fynnu gweithredu lle maent yn teimlo nad ymdriniwyd â'u problemau.

Mae'r tîm yn cefnogi'r ymatebion i ystod eang o broblemau cymunedol gan gynnwys sbwriel, tipio anghyfreithlon, ceir wedi'u gadael, nodwyddau wedi'u taflu, yfed ar y stryd, ymddygiad niwsans, defnydd anystyriol neu amhriodol o gerbydau, masnachwyr twyllodrus, atal troseddau ac unrhyw ddiystyrwch o ran llesiant personol neu gymunedol.

Y BARRI

- Broad Street
- Parc Chickenwood
- Parc Pencoedre
- Romilly
- Parc Victoria
- Gerddi Parade
- Y Knap
- Parc Bassett
- Caeau Batts
- Parc Gladstone,
- Gerddi Gladstone,
- Neuadd Goffa
- Ardal Chwarae Hatch Quarry
- Parc Little Hill
- Gibbonsdown
- Ystad Thompson Street.

Y BONT-FAEN

- Parc Twt
- Parc Poplars

DINAS POWYS

- Bryn-y-Don

PENARTH

- Parc Alexandra
- Y Kymin
- Tir Hamdden Cogan
- Windsor Road Dingle
- Caeau Chwarae Victoria
- Tir Eglwys yr Holl Saint
- Sgwâr Victoria
- Gerddi Windsor
- Ardal Chwarae Pembroke Terrace,
- Pembroke Terrace Cwrt-Y-Vil
- Tir Hamdden Old Penarthians
- Parc St David/Cae St Cyres

GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (PSPOs)

Bwriad PSPOs yw delio â niwsans penodol mewn ardal benodol sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y rhai yn y gymuned leol. Gallai hyn wahardd rhywbeth h.y. defnyddio alcohol

LLANILLTUD FAWR

- Y Sgwâr
- Parc Lorna Hughes
- Ardal Siopa Poundfield
- Caeau Chwarae Windmill
- Gorsaf Reilffordd Llanilltud Fawr

Y RHWS

- Parc Milburn
- Canolfan Gymuned y Rhws
- Gorsaf Reilffordd Y Rhws

Bu cynnydd yn nifer yr achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyflawnwyd yn erbyn staff ysbytai a gofal iechyd yn y Fro. Ystyrir y cynnydd hwn yn bryder ac yn arwydd, lle rhoddwyd ffocws yn y gorffennol ar leihau effeithiau negyddol YGG ar drigolion Bro Morgannwg, y rhoddir pwyslais llai ar ddioddefwyr YGG sy'n gweithio ym Mro Morgannwg. Cafwyd 25 digwyddiad yn 2018/2019, cynnydd o 13 yn 2017/2018. Nid y bwrdd iechyd yw'r unig bartner i brofi trais, ymddygiad ymosodol neu ddychryn ac mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi ymrwmo i sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel ym Mro Morgannwg ac na ddylai hyn fod dan oruchwyliaeth y rhai sy'n gweithio ynddo.

Byddwn yn monitro YGG yn y gweithle ac yn datblygu cefnogaeth i atal a mynd i'r afael â gweithredoedd ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn sefydliadau partner.

TROSEDDU AC AILDROSEDDU

Amcangyfrifir mai cost flynyddol aildroseddu yn y DU yw £7-10 biliwn. Mae cost economaidd troseddu yn helpu i dynnu sylw at yr aflonyddwch y gall troseddwy ei achosi i'w cymunedau. Mae hyn a'r angen i atal cymunedau rhag niwed yn golygu bod angen lefel ddwys o gefnogaeth ac adnoddau amlasiantaethol er mwyn lleihau canlyniadau negyddol troseddau yn effeithiol. Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n bennaf gyfrifol am reoli troseddwy yr aseswyd eu bod yn cyflwyno risg uchel neu risg uchel iawn o niwed.

cynllun braenaru
merched
atal troseddu trwy rymuso
menywod a merched



womens
pathfinder
preventing offending by
empowering women and girls

Mae'r
Gwasanaeth
Prawf
Cenedlaethol
(NPS) yn

gweithio mewn partneriaeth agos â Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru (CRC), sy'n gyfrifol am reoli troseddwy yr aseswyd eu bod yn cyflwyno risg isel neu ganolig o niwed, sydd naill ai wedi cael eu dedfrydu gan y llysoedd i ddedfryd gymunedol neu ohiriedig, neu wedi eu rhyddhau ar drwydded o'r carchar i dreulio gweddill eu dedfryd yn y gymuned, yn ogystal â chefnogi troseddwy sy'n cael eu dedfrydu i lai na 12 mis yn y carchar trwy'r giât. Mae'r NPS hefyd yn gweithio'n agos â'r Carchardai, Llysoedd, Heddlu a phartneriaid eraill i helpu diogelu'r cyhoedd ac ymdrin ag YGG. Lansiwyd y

Cynllun Braenaru Merched mewn ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Cyfiawnder i Droseddwr Benywaidd a'i archwiliad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a amlinellir yn Adroddiad y Farwnes Coston o Adolygiad o Fenywod â Bregusrwydd Penodol yn y System Cyfiawnder Troseddol (a gyhoeddwyd yn 2007). Daethpwyd i'r casgliad bod angen gwneud mwy i sicrhau gwelliannau i fenywod yn y System Cyfiawnder Troseddol. Yn hynny o beth, sefydlwyd y rhaglen Cynllun Braenaru Merched gyda'r nod o wella canlyniadau yn ymwneud â menywod sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Arweiniodd y gwaith hwn at gynnwys menywod fel grŵp blaenoriaeth yn Strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru 2014-16. Mae'r Cynllun Braenaru Merched yn ei fabandod yn y Fro ar ôl bod yn rhedeg am oddeutu 18 mis yn unig.

Mae project WISDOM yn Fenter Rheoli Troseddwr Integredig arall sy'n anelu at gyflawni'r canlynol:

- Gwell trefniadau rhannu gwybodaeth mewn perthynas â grwpiau blaenoriaeth peryglus;
- Gwell amddiffyniad y cyhoedd a diogelwch cymunedol ynghyd â llai o aildroseddu gan y rhai mwyaf peryglus yng Nghymru;
- Dull datblygedig a arweinir gan dystiolaeth, wedi'i dargedu at reolaeth amlasiantaethol o garfannau risg uchel o niwed;

- Gwireddu mwy o arbedion trwy wasanaethau integredig gwell a llai o ddyblygu;
- Datblygu cerbyd lle gellir nodi gwersi ac y gellir rhannu dysgu amlasiantaethol i ysgogi newidiadau systemig amhrisiadwy.

Byddwn yn cefnogi ein partneriaid i gyflawni eu cynlluniau gweithredu ac yn cyfrannu'n weithredol at fentrau Partneriaeth.

Mae'r project yn y broses o gael ei lansio yn y Fro ar ôl nodi carfan briodol o unigolion.

Dyfodol

Mae rhaglen Dyfodol yn rhoi cymorth i unigolion sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol wedi'u targedu o fewn y system cyfiawnder troseddol. Mae rhaglen Dyfodol 2019 yn awr yn gweithio o Orsaf yr Heddlu yn Heol Gladstone yn y Barri ochr yn ochr â nifer o Adrannau Heddlu, Tîm Diogelwch Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf. Dengys ffigurau perfformiad rhaglen Dyfodol bod y Fro

Mwy o gyfleoili

yn llwyddo i gyflawni targedau i ddarparu triniaeth ac adferiad i'r unigolion hynny yn y system cyfiawnder troseddol sydd â phroblemau camddefnyddio alcohol neu sylweddau. Y prif dueddiadau a adnabuwyd gan y Tîm yw:

- twf yn y defnydd o amryw o gyffuriau - cyffuriau adfywiol (cocên / crac) a sylweddau seicoweithredol newydd, gydag alcohol yn y rhai dan 30 oed (ac yn enwedig ymhlith y rhai dan 21 oed)
- twf mewn menywod o dan 25 oed yn profi'n bositif am sylweddau dosbarth A yn ystafell ddalfa Caerdydd.
- Mwy o gydafiachedd a chymhlethdod y rhai dros 45 oed (yn enwedig gyda phroblemau fel emffysema, symudedd, cardiofasgwlaidd, canserau ac ati)
- Mwy o risg gorddos o arferion niweidiol a chymryd cyffuriau pervalus.

Taclo'r Tacle Mae Taclo'r Tacle yn elusen annibynnol yng Nghymru sy'n derbyn gwybodaeth gan y cyhoedd ynghylch troseddau a gyflawnwyd, ac yn anfon y wybodaeth hon at yr awdurdodau perthnasol i'w phrosesu. Mae ganddynt

CrimeStoppers.
0800 555 111
100% anonymous. Always.

hefyd bresenoldeb rhagweithiol ar-lein lle maent yn rhannu cyngor a gwybodaeth ar sut i amddiffyn pobl rhag troseddu. Mae'r elusen yn gweithio gyda busnesau i gynnal ymgyrch addysgol a darparu gwasanaeth pwysig o ran atal a lleihau troseddau. Ledled y DU, mae 10 o bobl a amheuir yn cael eu harestio y diwrnod o ganlyniad i wybodaeth a dderbyniwyd gan Taclo'r Tacle ac mae 17% o'r wybodaeth a basiwyd i'r heddlu gan yr elusen yn helpu i sicrhau canlyniad cadarnhaol.

TROSEDDU IEUENCTID

Mae'r Gwasanaeth Troseddu Ieuencid (GTI) yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc rhwng 8 a 17 oed y nodwyd eu bod mewn perygl o droseddu fel rhan o'i wasanaeth atal; nid yw'r plant/pobl ifanc hyn wedi troseddu eto a nod y gwasanaeth yw ymdrin â'r risgiau a'r anghenion a nodwyd i'w hatal rhag mynd i mewn i'r System Cyfiawnder Ieuencid. Mae'r GTI hefyd yn cyflwyno ymyriadau cynnar ochr yn ochr ag Academi Cyfryngau Caerdydd, GTI Caerdydd a Heddlu De Cymru i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu am y tro cyntaf ac yn cyfaddef i'r drosedd, er mwyn eu dargyfeirio i ffwrdd oddi wrth droseddu trwy ymyriadau dargyfeirio. Bellach mae atal ac

O'i gymharu â 100,000 o boblogaeth ar draws ardaloedd PDC eraill, y Fro sydd â'r nifer uchaf o Newydd-ddyfodiaid i'r Gwasanaeth Troseddu Ieuencid.



ymyrraeth gynnar yn cyfrif am oddeutu 50% o lwyth achosion y GTI. Dangosodd llwyth achosion GTI yn y Fro am 2018/2019 fod 47 wedi eu Hasesu ar gyfer ymyrraeth atal, 53 wedi cychwyn ymyrraeth atal, 53 wedi derbyn gwarediad Adferol Ieuenctid.

Derbyniodd 21 o bobl ifanc Rybudd Ieuenctid neu Rybudd Amodol Ieuenctid.

Hefyd roedd gan y GTI lwyth achosion llys a cystodaeth, a oedd fel a ganlyn yn 2018:

15 wedi cychwyn ar

Orchymyn Cyfeirio

6 wedi cychwyn ar

Orchymyn Adferol Ieuenctid

4 wedi cychwyn ar Orchardmyn Cystodaeth

5 wedi eu cadw yn y Ddalfa

O ganlyniad i'r gorchmynion hyn, cwblhawyd dros 100 o asesiadau, fel sy'n ddyledus bob 3 mis. Mae nifer y newydd-ddyfodiaid (CALI) yn y Gwasanaeth Trosedd Ieuenctid wedi lleihau flwyddyn ar ôl blwyddyn yn dilyn y duedd genedlaethol ledled Cymru a Lloegr. Yn 2018/2019 roedd 23 cyfwerth ag amser llawn. Credir bod y gostyngiad hwn i'w briodoli i

gymysgedd o resymau, yn benodol y gwaith ataliol a wneir gan dimau trosedd Ieuenctid a chyflwyno rhaglenni ataliol i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed. Nodwyd hefyd mai ffactor arwyddocaol debygol fydd y newidiadau yng nhargedau'r heddlu ar droseddau a ddygir o flaen eu gwell, gan ganolbwyntio ar droseddau sy'n annhebygol o gael eu cyflawni gan bobl ifanc a'r cynnydd yn y defnydd o gyfiawnder adferol ac arferion dargyfeirio a ddefnyddir gan yr heddlu.

Byddwn yn cefnogi mabwysiadu dulliau cyson a hysbysir gan Drawma ar draws asiantaethau mewn ymateb i YGG a Throsedd.

Mae hyn yn cynnwys rhannu hyfforddiant ar ACEs ac arferion a hysbysir gan Drawma.

Mae'r gwaith sy'n cael ei lywio gan yr astudiaeth ar Brofiadau Niweidiol Plentynod yn cynyddu'n genedlaethol ac, yn y Fro, mae

ymrwymiad cryf i sicrhau bod gwaith yn ymwybodol o ganfyddiadau'r astudiaeth amlwg hon. Datgelodd yr astudiaeth fod profiadau niweidiol plentynod (ACEs), fel cam-drin ac esgeuluso plant neu dyfu i fyny gyda rhoddwyr gofal sy'n cam-drin alcohol neu gyffuriau, yn gysylltiedig yn gryf â chanlyniadau iechyd a chymdeithasol gwael yn ddiweddarach mewn bywyd.

Arfer a hysbysir gan Drawma

Ar adeg yr Asesiad Strategol hwn, roedd 5 o blant/pobl ifanc yn rhan o'r Project Gwell Rheolaeth ar Achosion, sy'n ffordd newydd o weithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol, yn seiliedig ar y Model Adfer Trawma. Atgyfeiriwyd plant/pobl ifanc ychwanegol ond nid oedd y gwasanaeth yn gallu cwblhau'r fformiwleiddiad oherwydd bod y seicolegydd a oedd ynghlwm wrth y project yn absennol.

Atal ac ymyrraeth gynnar

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn cael eu gweld fel hanfod yn y frwydr i sicrhau llai o drosedd ac anhrefn yn ein cymunedau. Awgrymodd astudiaeth gan Bowers & Guerette (2018) am bob £1.00 a werir ar atal trosedd sefyllfaol, arbedir £3.50.

Awgryma canllawiau gan y Swyddfa Gartref fod projectau i ymgysylltu pobl ifanc mewn gweithgareddau dargyfeiriol yn effeithiol i leihau fandaliaeth/ difrod troseddol, mewn cyfuniad


Dywedodd adborth preswylwyr wrthym fod mwyafrif trigolion o'r farn bod trosedd ac anhrefn yn cael eu hachosi'n bennaf gan ddiffyg darpariaeth ieuencid a gweithgareddau dargyfeirio.

â mesurau 'gwella diogelwch' (h.y. gwella cyfleoedd gwyliadwriaeth naturiol) yn ogystal â gwaith gyda phobl ifanc mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth o effaith a chanlyniadau

fandaliaeth. Awgrymir hefyd bod ymdrechion i leihau'r math hwn drosedd yn elwa'n arbennig o ddull partneriaeth.

Byddwn yn cynnal ymarfer mapio i gael gwell dealltwriaeth o'r gweithgareddau ataliol sy'n cael eu datblygu ar draws y bartneriaeth a rhannu arfer gorau neu ganlyniadau profedig.

Gwelodd Tân ac Achub De Cymru ostyngiad dros y blynyddoedd yn y nifer o danau damweiniol a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a fynychir gan y gwasanaeth. Mynychwyd cyfanswm o 71 o wrthdrawiadau traffig, gostyngiad o 11 o'r 82 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd 33 o danau eiddo damweiniol yn ystod y cyfnod adrodd, a oedd yn ostyngiad o 36 yn y flwyddyn flaenorol. Credir bod llawer o'r gostyngiad hwn yn



ganlyniad i'r cynnydd mewn mentrau lleihau niwed, gan gynnwys ymweliadau diogel ac iach, cyngor a gwybodaeth ar ddiogelwch yn y cartref,

Byddwch yn Ymwybodol – Ymgyrch y 5 Angheuol, a chyngor diogelwch beicio.

Mae Strategaeth Wrthderfysgaeth y DU, a elwir yn CONTEST, yn canolbwyntio ar y bygythiad diogelwch mwyaf sylweddol i bobl y DU heddiw, y bygythiad o derfysgaeth ryngwladol. Nod CONTEST yw lleihau'r risg i'r DU a'i buddiannau tramor gan derfysgaeth ryngwladol, fel y gall pobl fyw eu bywydau yn rhydd ac yn hyderus. Trefnir rhaglenni CONTEST mewn pedair ffrwd waith:

Ymlid - i atal ymosodiadau terfysgol. Atal - i atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi eithafiaeth dreisgar. Diogelu - cryfhau ein diogelwch rhag ymosodiad terfysgol. Paratoi - lle nad oes modd atal ymosodiad, i liniaru ei effaith.

Mae Ymlid, Atal, Diogelu a Pharatoi yn atgyfnerthu ac yn ategu ei gilydd er mwyn lleihau'r bygythiad terfysgol i'r DU a'n buddiannau tramor.

Mae'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn gyfrifol am weithredu'r Strategaeth PREVENT ar draws y sir ac mae gan yr holl bartneriaid rôl hanfodol i'w chwarae i adeiladu cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar. Mae'r atgyfeiriadau i PREVENT yn cael eu rheoli gan y Tîm Diogelwch Cymunedol.

Dadansoddiad o atgyfeiriadau i PREVENT:

2016 - 6

2017 - 1

2018 - 0

Panel amlasiantaeth yw CHANNEL (yn debyg i MARAC), lle mae achosion unigol yn cael eu trafod, a mecanweithiau cymorth priodol yn cael eu rhoi ar waith. Mae'n debygol y bydd y person sy'n atgyfeirio unigolyn yn cael ei wahodd i fynychu Panel CHANNEL er mwyn rhoi trosolwg o'r achos.

Byddwn yn adolygu ac yn ailwampio'r Grwpiau Cydlyniant Cymunedol



Enghraifft dda: Gweithio ar y Cyd i Leihau Aildroseddu

Rheoli Troseddwr Integredig (IOM)

Mae'r tîm IOM yn cynnwys Swyddogion yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf sy'n gweithio'n agos gyda phartneriaid i reoli'r garfan o droseddwr yn effeithiol.

Pan fo troseddwr yn ddigartref ar y stryd mae'n gwneud rheoli'r risg yn broblemus ac mae hefyd yn rhwystr i'r troseddwr allu mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a chymryd camau cyflogaeth cadarnhaol. Mewn un achos, nodwyd bod gan droseddwr yn y garfan IOM anghenion tai. Gweithiodd IOM yn agos gydag adran dai Bro Morgannwg i sicrhau llety dros dro i'r troseddwr, gan greu cynllun symud ymlaen. Yn y pen draw, sicraodd y troseddwr lety rhent preifat gyda chymorth yr adran dai.

Yn ystod yr amser hwn bu IOM yn gweithio'n agos gyda phartneriaid o asiantaeth Camddefnyddio Sylweddau Dyfodol. Cyn ei ryddhau o'r ddalfa, trafodwyd y troseddwr yn y gynhadledd achos amlasiantaeth fisol a chynghorodd Dyfodol y byddent yn cynnal ymweliad cyn-rhyddhau gyda'r troseddwr i drafod opsiynau unwaith ei fod yn y gymuned. Ymgysylltodd y troseddwr yn dda, a alluogodd Dyfodol i reoli ei sgript methadon yn ddiogel.

Yn dilyn y gynhadledd achos amlasiantaethol (a fynychwyd hefyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau) cafodd y troseddwr

gymorth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i sefydlu a chael Credyd Cyffredinol. Gwneir hyn yn aml yng ngorsaf yr heddlu fel rhan o apwyntiadau IOM. Mae cynrychiolydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn mynychu'r apwyntiadau ac yn delio â'r troseddwr mewn modd cefnogol nad yw'n wrthdrawiadol. Unwaith ei fod yn sefydlog, cymerodd y troseddwr gamau cadarnhaol ynglŷn â chyflogaeth a llwyddodd i gael swydd. Fodd bynnag, gan fod gofyn i'r unigolyn fynd i apwyntiadau gwasanaeth prawf ac i gael ei sgript methadon, gweithiodd IOM yn agos gyda Dyfodol, i sicrhau bod apwyntiadau'n cael eu cynnig cyn dechrau oriau gwaith arferol. Fe wnaeth hyn alluogi'r troseddwr i gydymffurfio ag amodau'r drwydded, cynnal y sgript, a pharhau i weithio.

Gwelsom ostyngiad sylweddol mewn troseddu, a arweiniodd at i'r troseddwr gwblhau'r gwasanaeth prawf a chael ei symud allan o'r Garfan IOM. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb gymorth tai, AGPh a Dyfodol yn gweithio'n agos gyda'r IOM (yr heddlu a'r gwasanaeth prawf - sy'n un tîm).



BLAENORIAETH 2 – Ymgysylltu ein cymunedau

Gwella'r ffordd yr ydym yn cysylltu, yn cynnwys ac yn rhoi gwybodaeth i'n cymunedau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, y teimlad o berthyn a chydlyniant cymunedol cadarnhaol yn y Fro.

Ar hyn o bryd mae nifer o fentrau i ymgysylltu a chyfathrebu â



thrigolion y Fro.

Negeseuon cymunedol

Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn defnyddio 'Negeseuon

Cymunedol', sef gwasanaeth negeseuon wedi'i dargedu, sy'n caniatáu i'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach hysbysu'r cyhoedd am droseddau a gofyn am wybodaeth ar lefel leol. Mae'r gwasanaeth yn offeryn cyfathrebu amhrisiadwy gyda 1,xxx o unigolion wedi cofrestru ar y cynllun ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn cyhoeddi negeseuon yn wythnosol ynghylch dyddiadau pwysig neu fflachiadau newyddion sy'n dod i'r amlwg yn y Fro.

Diwrnod Hwyl Bro Ddiogelach

Bob blwyddyn, mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnal 'diwrnod hwyl' dros yr haf i ymgysylltu â'r gymuned ar faterion yn ymwneud â diogelwch cymunedol. Defnyddir y

digwyddiad i ymgynghori â'r cyhoedd, hysbysu trigolion am newidiadau neu ddatblygiadau ym maes diogelwch cymunedol yn y Fro a rhannu gwybodaeth ynghylch argaeledd ac ehangder y gwasanaethau sydd ar gael yn ogystal â mentrau atal neu ddulliau ymyrraeth. Mae'r diwrnod bob



amser yn llwyddiant ysgubol, gan ddenu miloedd o drigolion sy'n ymgysylltu'n dda â'r gwahanol stondinau a gweithgareddau diogelwch cymunedol sydd ar gael.

TREV

Mae'r Cerbyd Ymgysylltu Sicrwydd "TREV" yn offeryn allweddol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a chreu presenoldeb ym Mro Morgannwg.



Defnyddir y Cerbyd mewn Partneriaeth i roi gwybodaeth, cyngor a sicrwydd i drigolion Bro Morgannwg ynghylch nifer o fentrau diogelwch cymunedol. Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn rheoli

amserlen o ddigwyddiadau lle gall gwahanol bartneriaid archebu'r cerbyd a cheisir cynnal digwyddiadau ymgysylltu sy'n unol â dyddiadau penodol fel 'ymwybyddiaeth nodwyddau a deflir' yn ystod wythnos lleihau niwed ym mis Tachwedd neu gyngor a gwybodaeth Cam-drin Domestig ar Ddiwrnod Rhuban Gwyn.



VPod yw'r cyfrwng ymgysylltu â phobl ifanc sy'n cynnal mentrau ymgysylltu tebyg ac allgymorth a dargedir yn benodol ar bobl ifanc. Crëwyd y V-pod ei hun i fynd allan a chyrraedd y bobl ifanc hynny nad oes ganddynt fynediad at wasanaethau a darpariaeth leol, a thros amser mae hefyd wedi dod yn ddull Gwasanaeth Ieuenctid y Fro o gefnogi gweithgareddau a digwyddiadau mewn cymunedau, megis goleuadau Nadolig, ymgynghoriadau cymunedol a digwyddiadau ieuenctid eraill.

Mae'r Swyddfa Gartref yn nodi y dylai hyder y cyhoedd fod yn ganolog i'n dealltwriaeth o ba mor dda yr ydym yn darparu

Byddwn yn gwneud gwell defnydd o TREV ac yn cynyddu nifer y gweithwyr partner sydd â mynediad at TREV er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o bartneriaeth a sicrhau gwell mynediad i unigolion ledled v Fro.

Byddwn yn trefnu diwrnodau hybiau gyda'r holl bartneriaid lle bydd cynrychiolwyr enwebedig yn mynychu clinigau hybiau mewn lleoliadau amrywiol i godi ymwybyddiaeth o'r Fro Ddiogelach ac i gael ymatebion y cyhoedd i broblemau yn eu hardal.

diogelwch cymunedol ac yn ymateb i'r materion sydd bwysicaf i'r cyhoedd. Mae ymgysylltu â'r gymuned yn bwysig gan ei fod yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn adlewyrchu ac yn ymateb i farn a phryderon pobl lleol. Mae hefyd yn helpu pobl o fewn y gymuned i deimlo eu bod yn cymryd rhan ac yn gyfrifol am wella eu hansawdd bywyd

“Nid oes pŵer i newid yn fwy na chymuned yn darganfod yr hyn y mae'n poeni amdano”

Margaret Wheatley

a chanfod atebion sy'n gweithio dros y tymor hir. Heb wybod am beth mae ein cymunedau yn poeni, nid oes gennym fawr o obaith o sicrhau newid cadarnhaol mewn materion sy'n ymwneud â throsedd ac anhrefn yn y Fro. Mae adborth cymunedol wedi dangos inni nad yw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn frand y mae'r cyhoedd yn ei adnabod.

Yn ei ystyr ehangaf, mae ymgysylltu â'r gymuned yn ffordd o ryngweithio â thrigolion. Mae'n broses barhaus sy'n caniatáu cyfnewid dwyffordd rhwng trigolion a'r bartneriaeth. Dylai trigolion a phartneriaid elwa o ymgysylltu â'r gymuned. Gall pob aelod o gymuned gymryd rhan, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd/cred. Gall cymuned fod yn llawer o bethau; mae 'cymunedau lle' fel stryd neu 'gymunedau o ddiddordeb ac ymgysylltu' yn

cynnwys hysbysu, ymgynghori a grymuso cymunedau lleol i fynegi a delio â'r materion sy'n effeithio fwyaf arnynt. Yr hanfodion sylfaenol yw:

- Ymgynghori - gofyn i bobl am yr hyn maent ei eisiau a sut maent eisiau iddo gael ei wneud;
- Meithrin gallu - datblygu sgiliau, galluoedd a hyder y bobl yn y gymuned; a
- Grymuso - rhoi cyfle, sgiliau a gallu i bobl ddatblygu eu cymuned.

Nid oes dilyniant cam wrth gam bob amser o ymgynghori i rymuso, ac mae nifer o heriau i ymgorffori ymgysylltiad cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys gormod o faich ymgynghori, adnoddau asiantaeth cyfyngedig, rhwystrau rhag dylanwadu ar wneud penderfyniadau, a sicrhau bod POB cymuned yn cymryd rhan ac yn cael llais.

Byddwn yn creu strategaeth gyfathrebu sy'n datblygu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymgysylltu â PHOB cymuned, gan wneud y defnydd gorau o BOB dull cyfathrebu i weddu i anghenion amrywiol ein trigolion.

Datgelodd adborth gan drigolion trwy gydol y strategaeth hon fod cymhariaeth o droseddau canfyddedig â throseddau gwirioneddol yn dangos bod gan drigolion St Augustine, Saint-y-brid, Llanilltud Fawr, y Rhws a Baruc i gyd syniad da o ba droseddau a gyflawnwyd fwyaf yn eu hardal.

Roedd 40% o'r ymatebwyr yn anghywir ynghylch pa droseddau yr oeddent yn credu a gyflawnir amlaf yn eu hardal ac roedd 83% yn credu'n wallus nad oedd YGG wedi gostwng o'r llynedd.

Yn unol â hyn, roedd 44% yn teimlo'n anwybodus ynghylch materion trosedd ac anhrefn yn eu hardal, gyda 6% arall yn teimlo'n anwybodus iawn.

Roedd 11% o'r ymatebwyr yn teimlo'n wybodus iawn ac roedd 22% yn teimlo'n wybodus ynghylch materion trosedd ac anhrefn yn eu hardal.

Byddwn yn enwebu hyrwyddwr ymgysylltu â'r Fro Ddiogelach ym mhob asiantaeth bartner sy'n gyfrifol am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwybodaeth am y bartneriaeth yn eu sefydliadau ac ymhlith eu cleientiaid

Roedd 44% o'r trigolion yn teimlo'n anwybodus ynghylch materion trosedd ac anhrefn yn eu hardal.

Nid oedd mwyafrif helaeth y trigolion yn gwybod beth oedd y Bartneriaeth Bro Diogelach ac felly nid oeddent yn ymwybodol ohoni fel adnodd iddynt gael gafael ar wybodaeth am drosedd ac anhrefn neu i gael gafael ar gyngor a chefnogaeth. Roedd

y diffyg gwybodaeth am y Bartneriaeth Bro Diogelach yn ymestyn i weithwyr proffesiynol o fewn sefydliadau partner yn y Fro, nad oedd llawer ohonynt yn gwybod beth mae'r Bartneriaeth yn ei wneud, na sut y maent yn rhan ohoni. Tybir mai un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at

y diffyg ymwybyddiaeth hwn o'r Bartneriaeth yw'r anghysondeb yn y modd y defnyddir y brand gan y sefydliadau partner. Yn aml, mae dryswch ynghylch pryd y dylai sefydliadau ddefnyddio logos a brand eu sefydliad eu hunain, a phryd y dylid defnyddio brand y Bartneriaeth.

Byddwn yn creu protocol ar gyfer pryd y dylid defnyddio brandio'r Fro Ddiogelach yn lle brandio asiantaethau unigol.

Byddwn yn creu fideo fer yn egluro beth yw'r bartneriaeth, pwy sy'n rhan ohoni, a pham ei bod yn bwysig.

Wrth i'r oes ddigidol ddod yn fwyfwy cyffredin, mae'r cysyniad o e-fyw yn dod yn realiti ac ar draws y DU mae'r sector cyhoeddus yn cymryd arweiniad gan sefydliadau masnachol o ran deall sut i wasanaethu'r cyhoedd yn well. Mae galwadau i ymdrin â newid technolegol yn golygu bod angen i lywodraethau lleol achub ar y cyfle hwn i optimeiddio costau a sicrhau bod gwasanaethau a gweithrediadau yn gynyddol gynaliadwy ac addasadwy i anghenion esblygol.

Byddwn yn creu ap Bro Ddiogelach sy'n caniatáu i aelodau'r gymuned gael mynediad hawdd at Wasanaethau'r Fro Ddiogelach, ac sy'n hysbysu'r cyhoedd am y Fro Ddiogelach.

Mae gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (dyletswydd gyffredinol) a dyletswyddau penodol ar gyfer Cymru.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cynnwys wyth nodwedd a ddiogelir:

- Oed
- Hil
- Anabledd
- Crefydd neu Gred
- Ailbennu Rhywedd
- Rhyw
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond o ran rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru'r dyletswyddau a roddir ar gyrf cyhoeddus fel rhai sydd angen:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt; a

- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.

Golyga hyn fod rhaid i Bartneriaid Bro Ddiogelach weithio ar:

- ddileu neu leihau anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;

Byddwn yn cynnal dadansoddiad bwlch ymgysylltu i benderfynu pa grwpiau ac ardaloedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn grwpiau

- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Gwyddom fod cynrychiolaeth anghymesur ymhlith rhai grwpiau yn yr holl wasanaethau ledled y Fro. Nid yw hyn ddim llai nag yn y grwpiau cymunedol sy'n bodoli.

Byddwn yn adolygu aelodaeth a chylch gwaith grwpiau cymunedol ac yn eu huno lle bo hynny'n bosibl i greu grwpiau symlach sydd â chysylltiad gwell.



Grwpiau Cymunedol

Er gwaethaf yr ystadegau ynghylch diffyg ymgysylltiad yn y Fro, erys hyb cryf a gweithredol y gymuned sy'n cymryd rhan mewn amrywiol grwpiau cymunedol.

Dyluniwyd Gwarchod Gwledig i annog pobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad i fod yn wylidwrus, rhannu eu gwybodaeth a lleihau cyfleoedd am droseddu a fandaliaeth trwy adrodd am unrhyw beth amheus i'r heddlu. Mae gwybodaeth yn offeryn hanfodol i'r heddlu yn y frwydr yn erbyn trosedd, a gall y cyhoedd helpu trwy ddarparu gwybodaeth, ni waeth pa mor ddibwys ei natur y mae'n

ydddangos. Mae Gwarchod Gwledig yn darparu cyngor a gwybodaeth ar ddiogelwch ffermydd, diogelwch/pasbort ceffylau ac anifeiliaid crwydr, delio â bygythiadau, atal dwyn metel a thresmasu.

Mae Pawennau ar Batrôl yn gynllun a grëwyd i adeiladu ysbryd cymunedol lle gall pobl sy'n mynd â chŵn am dro gyfrannu tuag at ddiogelu eu cymdogaethau, lleihau'r cyfle am drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau ofn trosedd, yn enwedig ymhlith y rhai agored i niwed.



Gwarchod Cymdogaeth yw partneriaeth sy'n dod â phobl at ei gilydd i wneud eu cymunedau yn fwy diogel. Mae'n cynnwys yr heddlu, adrannau Diogelwch Cymunedol awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol eraill ac unigolion a theuluoedd sydd, yn ôl pob golwg, eisiau gwneud eu cymdogaethau yn lleoedd gwell i fyw.

Grŵp Cydlyniant Cymunedol

Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn diffinio cydlyniant cymunedol fel cymuned lle mae gweledigaeth gyffredin ac ymdeimlad o berthyn i bob cymuned; lle caiff amrywiaeth cefndiroedd a gwahanol amgylchiadau pobl eu gwerthfawrogi'n gadarnhaol; lle bod pobl o wahanol gefndiroedd gyda chyfleoedd bywyd tebyg; a lle mae

perthnasoedd cryf a chadarnhaol yn cael eu datblygu rhwng pobl o wahanol gefndiroedd yn y gweithle, mewn ysgolion ac o fewn cymdogaethau.

Ar y cyfan, mae niferoedd isel iawn o Droseddau Casineb yn y Fro; fodd bynnag, fesul cyfradd o 1,000 o unigolion, o'i gymharu ag ardaloedd eraill Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ledled De Cymru, rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, roedd niferoedd uwch o droseddau casineb tuag at bobl anabl a throseddau casineb trawsryweddol.

Byddwn yn adolygu prosesau nad ydynt yn gweithio, yn benodol y caniatâd i osod arwyddion GC newydd yn y gymuned.

Hefyd, roedd ofn cyhoeddus, dychryn neu drallod a waethygydd oherwydd hil neu grefydd â'r niferoedd uchaf yn y Fro, ac mae ffigurau ymosodiadau gydag anafiadau o fewn troseddau casineb yn uchel o'u cymharu ag ardaloedd PDC eraill.

ASTUDIAETH ACHOS: Gwirfoddolwr Gwarchod Cymdogaeth

Er bod y corff presennol o aelodau gwarchod cymdogaeth yn ffynnu ar draws y Fro, rydym yn dal i fod eisiau tyfu, ond rydym yn cael ein dal yn ôl pan fo aelodau newydd eisiau ymuno. Un o agweddau pwysig Gwarchod Cymdogaeth newydd yw'r gallu i'w hysbysebu ac arddangos yr arwyddion gwarchod cymdogaeth ar lampau stryd lle maent yn weladwy ac yn cael eu hadnabod. Fodd bynnag, mae gofyn i dîm Priffyrdd y cyngor am hyn yn broses anhygoel o hir sy'n cynnwys llenwi ffurflenni ac aros am awdurdodiad cyn symud ymlaen. Erbyn i ni roi'r golau gwyrdd (sydd bob tro), yn aml mae'r Gwirfoddolwr Gwarchod Cymdogaeth newydd wedi datgysylltu, ac o ganlyniad, nid yw'r warchodaeth newydd yn cael ei sefydlu.




BLAENORIAETH 3 – Diogelu

Gweithio i Ddiogelu'r Mwyaf Agored i Niwed yn ein Cymunedau.

Mae diogelu wrth wraidd y Bartneriaeth Bro Ddiogelach ac mae arferion gwaith agos gyda'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol Plant ac Oedolion. Mae'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn deall ei chyfrifoldeb i gefnogi'r Byrddau Diogelu i amddiffyn oedolion yn ei hardal sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth (p'un a yw awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio) ac sy'n profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu mewn perygl o hynny, ac i atal yr oedolion hynny rhag bod mewn risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Y DAARC

Mae Project Cam-drin Domestig, Asesu a Chydlynu Atgyfeirio DAARC yn broject newydd arobryn a reolir gan Dîm Diogelwch Cymunedol y Cyngor. Yn 2016, ceisiodd y Fro Ddiogelach ymchwilio i atebion i ddelio ag unigolion a oedd ag



anghenion cymhleth. Daeth yn amlwg yn fuan mai'r hyn yr oedd gweithwyr proffesiynol ei eisiau, ac yr ystyriwyd ei fod yn allweddol i sicrhau canlyniadau

cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth, oedd cyfathrebu a chydlynu gwell, mwy integredig yn y gofal a'r gefnogaeth i unigolion sydd angen mewnbwn gwasanaeth lluosog.

“Roeddwn i'n teimlo gwir sicrwydd, dangosodd yr alwad fod rhywun yn malio, helpodd yr alwad fi i deimlo'n fwy diogel a gwneud i mi deimlo'n bwysig” DIODDEFWR O'R DAARC

Datblygwyd gwasanaeth DAARC mewn ymateb uniongyrchol i'r materion hyn. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys cydgysylltydd sy'n derbyn yr holl Hysbysiadau Amddiffyn Cyhoeddus Cam-drin Domestig (DA PPN) risg safonol a chanolig gan yr heddlu ac yn cynnal ystod o ymchwiliadau i asesu anghenion yr unigolyn yn gywir a'u cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol ar yr adeg iawn.

Byddwn yn parhau i fonitro a gwella Gwasanaeth DAARC ac yn mynd ati i geisio ehangu ei swyddogaeth i gynnwys swyddogaeth tramgwyddwr

Nodau cyffredinol y gwasanaeth yw sicrhau llai o achosion o gam-drin domestig dro ar ôl tro, cyfradd is o ddyrchafu o

PPNs DA safonol neu ganolig i PPNs DA risg uchel, gwell profiad o'r llwybr cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth, gwell effeithlonrwydd o fewn gwasanaethau trwy well gallu i weithio gyda dioddefwyr, yn hytrach na gorfod delio ag atgyfeiriadau dyblyg ac amhriodol, a'r anawsterau a grëir trwy gefnogaeth wrthdrawiadol gan wasanaethau nad ydynt yn siarad â'i gilydd. Yn ei flwyddyn gyntaf, prosesodd y gwasanaeth 1657 o atgyfeiriadau, gyda 1102 ohonynt yn cynnwys plant ac i bob pwrpas mae wedi lleihau atgyfeiriadau amhriodol ar draws y llwybr. Mae'r gwasanaeth hefyd i bob pwrpas wedi lleihau atgyfeiriadau dyblyg ar draws y llwybr ac mae'n cynnig ymyrraeth gynnar i ddioddefwyr a phlant cam-drin domestig na fyddent o'r blaen wedi cael y math hwn o ymwneud â gwasanaethau.

“Mae'n ddi-fai, roedd y gwasanaeth yn wych i mi.” DIODDEFWR O'R DAARC


Mae'r gwasanaeth wedi helpu dioddefwyr i deimlo'n fwy diogel, gwella eu sefyllfa gartref, gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol ac ansawdd eu bywyd yn gyffredinol. Yn 2018/2019



roedd y gwasanaeth ar restr fer Gwobr Tai'r DU ac enillodd wobwr Cyngor Bro Morgannwg am Arloesi.

Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol

Cyfarfodydd amlasiantaethol yw MARACs lle mae cynrychiolwyr asiantaethau statudol a gwirfoddol yn rhannu gwybodaeth am ddioddefwyr risg uchel er mwyn cynhyrchu cynllun gweithredu cydgysylltiedig i gynyddu diogelwch dioddefwyr. Rôl y MARAC yw darparu fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth yn effeithiol a gweithio mewn partneriaeth ymhlith ystod amrywiol o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar oedolion a phlant er mwyn gwella diogelwch dioddefwyr risg uchel a'u plant.



Treialwyd y cysyniad o MARAC gyntaf yng Nghaerdydd yn 2002 ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, ac erbyn hyn mae dros 250 o MARACs o'r fath ledled y DU.

Ceir atgyfeiriadau o ystod eang o asiantaethau statudol a thrydydd sector sy'n defnyddio DASH-Ric Bywydau Diogel,

ACHOSION MARAC YM MRO MORGANNWG												
	ION	CHWE	MAW	EBR	MAI	MEH	GORFF	AWS	MED	HYD	TACH	RHAG
2015	17	13	8	9	13	16	27	16	21	14	20	32
2016	16	23	19	22	18	38	25	18	23	37	24	32
	-6%	77%	138%	144%	38%	138%	-7%	13%	10%	164%	20%	0%
2017	37	35	31	33	31	23	22	35	23	20	14	15
	131%	52%	63%	50%	72%	-39%	-12%	94%	0%	-46%	-42%	-53%
2018	22	21	17	17	38	23	22	24	22	32	20	27
	-41%	-40%	-45%	-48%	23%	0%	0%	-31%	-4%	60%	43%	80%

sef ffurflen safonol a ddyluniwyd i adnabod dioddefwyr risg uchel, a ddefnyddir yn gyffredin gan bob partner. Mae gan yr elusen SafeLives (CAADA gynt) gyfrifoldeb am oruchwyllo gweithrediad pob MARAC ledled y DU a chynnal adolygiadau blynyddol o MARACs a datblygu arweiniad, gweithdrefnau, templedi a hyfforddiant. Mae MARACs yn cyflawni

Byddwn yn adolygu'r broses a'r gweithdrefnau ar gyfer cyfarfodydd MARAC

swyddogaeth eithriadol o bwysig, mae'n amlwg eu bod yn effeithiol wrth ddod â phartneriaid ynghyd i drafod dioddefwyr risg uchel cam-drin domestig. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y prosesau sy'n amgylchynu'r MARACs, gan awgrymu y gellid gwneud mwy i'w gwneud yn

symlach, i gymryd llai o amser, a bod yn fwy effeithiol yn gyffredinol wrth gydlynu'r gofal i'r dioddefwyr risg uchel hynny a'u teuluoedd.



supportingpeople
supporting independence

TAI ARBENIGOL A LLOCHESI

Mae colli tenantiaeth yn ddigwyddiad cyffredin i unigolion sy'n dioddef o fregusrwydd, boed hynny trwy gam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau neu alcohol neu broblemau iechyd meddwl.

Yn sicr, yn achos gwasanaethau cam-drin domestig/llochesi arbenigol, mae cyfanswm o 11 gwely a 105 awr o gefnogaeth fel y bo'r angen fesul wythnos. Nid oes darpariaeth ar gyfer dynion sy'n dioddef. Mae'r diffyg cymorth arbenigol hwn sy'n

Byddwn yn gweithio gyda Chefnogi Pobl i edrych ar gynyddu'r ddarpariaeth llety ar gyfer y rheini ag anghenion cymhleth sy'n cyd-ddigwydd.

gysylltiedig â thai yn broblem genedlaethol ac yn un sy'n cael ei adleisio yn y Fro gan ddiodefwyr a gweithwyr proffesiynol.

Mae Helen yn fam 33 oed i 5 o blant sy'n byw yn y Barri. Ar hyn o bryd mae'n mynd trwy ysgariad ar ôl gadael ei phartner 18-mllynedd oherwydd cam-drin domestig ac ymddygiad gorfodol.

Mae Helen a'r plant wedi cael eu gorfodi i aros yng nghartref teulu ei chyn-gamdriniwr, lle mae hi wedi bod yn byw am 5 mis hyd yma, oherwydd diffyg tai sy'n addas iddi hi a'i 5 plentyn. Yn y trefniant tai hwn, mae wedi parhau i dderbyn bygythiadau i ladd ac wedi parhau i fyw mewn ofn o'i chamdriniwr.

Ar hyn o bryd, mae hi'n aros i symud i hostel lle bydd y 6 ohonynt yn rhannu 2 ystafell. Yr unig opsiwn arall oedd symud i Belffast.

GWELLA DIOGELWCH

Lle bynnag y bo modd ac yn ddiogel i wneud hynny, dylid cefnogi diodefwyr i aros yn eu cartref presennol gyda mesurau diogelwch ychwanegol os oes angen. Yn ogystal â datrys atebion ymarferol i atal mynediad digroeso, gallant roi

tawelwch meddwl i ddiodefwyr. Cyfeirir at ddarpariaeth o'r fath yn aml fel 'system', a gall gynnwys mesurau diogelwch ar adeiladwaith yr adeilad megis cloeon allanol ar gatiau, goleuadau diogelwch, ffensys a theledu cylch cyfyng, neu fesurau mewnol fel cloeon ffenestri, blychau llythyrau gwrth-dân, botymau galwyr ffug a larymau cymunedol. Y Tîm Diogelwch Cymunedol fu'n gyfrifol am wella diogelwch yn y Fro yn 18/19, a derbyniodd 99 o eiddo welliant diogelwch, gan gynnig diogelwch ychwanegol i ddiodefwyr, a'u helpu i

GWELLA DIOGELWCH YN Y FRO 18/19					
	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	CYFANSWM
Achosion MARAC	58	66	81	71	276
Gwella diogelwch i MARAC	8	9	8	6	31
Gwella diogelwch i'r rhai nad ydynt yn MARAC	21	14	15	18	68
Cyfanswm Gwella Diogelwch	29	23	23	24	99

Byddwn yn cefnogi'r VAWDASV rhanbarthol yn eu hadolygiad o wella diogelwch a symud tuag at ddull cenedlaethol



deimlo'n fwy diogel a'u galluogi i aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Gweithredwyd Deddf VAWDASV 2015 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn: gwella'r trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol; gwella trefniadau ar gyfer diogelu dioddefwyr trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a gwella'r cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Ddeddf yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad a fydd yn hyrwyddo cysondeb ac arfer gorau yn y ffordd y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei flaenoriaethu a'i daclo ledled Cymru, gyda'r nod o "greu Cymru rydym i gyd eisiau byw ynnddi, yn awr ac yn y dyfodol, Cymru lle mae pawb yn gallu byw heb ofn mewn perthnasoedd a chymunedau diogel, cyfartal a di-drais."

Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a sefydliadau statudol i ddatblygu strategaethau rhanbarthol. Cydweithiodd y Fro gyda Chaerdydd i greu strategaeth ranbarthol sy'n amlinellu sut y bydd yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy gyflwyno amcanion canlynol: PARATOI (Gwella cynllunio a chomisiynu gwasanaethau). YMLID (Ymdrin â

thramgwyddwyr sy'n cyflawni VAWDASV a gwella rhannu gwybodaeth). ATAL (mynd i'r afael ag agweddau ac ymddygiad negyddol sydd â'r potensial i arwain at VAWDASV). AMDDIFFYN (Gwella yr ymateb amlasiantaethol a chefnogaeth i'r holl ddioddefwyr a'u plant). CYMORTH (sicrhau gwasanaethau arloesol, hyblyg sy'n seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael)

Ymgyrch y Rhuban Gwyn

Mae'r Rhuban Gwyn yn sefydliad yn y DU sy'n ceisio dileu trais dynion yn erbyn menywod. Mae'r elusen wedi datblygu nifer o fentrau y gall unigolion a chwmnïau eu llofnodi i ddangos eu cefnogaeth i'r fenter hon a dangos yn gyhoeddus eu gwrthwynebiad i ymddygiadau ymosodol neu orfodol tuag at fenywod. Mae partneriaid ledled y Fro wedi ymrwymo i'r addewid ac ar 25 Tachwedd (y diwrnod rhyngwladol ar gyfer dileu trais yn erbyn menywod), daw partneriaid ynghyd i ddangos eu cefnogaeth yn agored.

BETH DDYWEDODD Y CYHOEDD...

Dangosodd adborth o asesiad anghenion y Gwasanaethau Cymdeithasol fod eu hymatebwyr yn dweud mai wrth ffrindiau, yr Heddlu, perthnasau neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol yr oeddent fel arfer yn adrodd am y gamdriniaeth. O'r bobl nad oeddent wedi dweud wrth unrhyw un am y gamdriniaeth, roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys: teimlo cywilydd, ddim yn gwybod wrth bwy i ddweud, ddim yn sylweddoli ei bod yn gamdriniaeth, yn meddwl na fyddent yn cael eu cymryd o ddifrif, na fyddai pobl yn credu y gallai dyn fod yn ddioddefwr.

O ran lle'r hoffai ymatebwyr weld gwybodaeth am gam-drin domestig, nododd dros hanner yr ymatebwyr feddygfeydd, ysgolion/ colegau/ prifysgolion, ysbytai, adeiladau cyngor, canolfannau hamdden, gorsafoedd heddlu, canolfannau siopa/ archfarchnadoedd, trafnidiaeth gyhoeddus, tafarndai/ bariâu/ clybiau, a deintyddion, sy'n awgrymu cefnogaeth gref i gael argaeledd eang o wybodaeth trwy nifer o lwybrau.

Daeth yn amlwg bod yr angen am waith gyda thramgwyddwyr yn flaenoriaeth gan y trigolion..

Roedd 35% o'r trigolion yn yr arolwg a gynhaliwyd i'r Asesiad Strategol o'r farn bod cam-drin domestig yn broblem fawr.

Edrychodd astudiaeth ACE a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru ar effeithiolrwydd cyflwyno hyfforddiant ACE mewn meddygfeydd. Nododd yr astudiaeth nad oedd 60% o'r ymatebwyr a ddatgelodd ACE wedi rhannu hyn o'r blaen gyda gweithiwr proffesiynol arall. Rydym yn gwybod ei bod yn debygol y bydd yr unigolyn agored i niwed a welir gan un partner mewn gwasanaethau cymunedol wedi ei weld gan nifer o bartneriaid eraill hefyd ar adeg flaenorol yn eu bywydau. Mae dull partneriaeth ac ymrwymiad system gyfan o nodi a gweithredu ar wendidau/bregusrwydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dioddefwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn gwella adnabod bregusrwydd trwy gyflwyno rhaglen o hyfforddiant diogelu a hyfforddiant bregusrwydd i'r holl weithwyr sy'n wynebu'r cyhoedd (gan gynnwys casglwyr sbwriel / postmyn / gweithwyr cynnal a chadw ayb.)

Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos materion fel caethwasiaeth fodern, camfanteisio rhywiol ar blant a llinellau cyffuriau sydd i gyd yn faterion sy'n cynyddu o ran amlygrwydd, ond sy'n parhau i fod â diffyg ymwybyddiaeth ymhlith rhai gweithwyr proffesiynol yn y gymuned.


Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau

Mae Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau yn niweidiau gweladwy a chudd ym Mro Morgannwg gyda ffigurau o gamddefnyddio yn amlwg yn y Fro ffyniannus (trwy'r cyfraddau uchaf o yfed alcohol) a'r rhannau mwy difreintiedig (trwy dderbyniadau uwch i'r ysbyty am gyflyrau penodol alcohol a chyffuriau).

Alcohol yw'r prif sylwedd sy'n cael ei gamddefnyddio o hyd ond mae mwy o achosion o gamddefnyddio cocên, Sylweddau Seicoweithredol Newydd, Benzodiazepines a defnyddio amrywiaeth o gyffuriau. Derbyniodd y Gwasanaeth Mynediad i Gyffuriau ac Alcohol (EDAS) 1566 o atgyfeiriadau yn y flwyddyn 2018-2019, cynnydd o 1462 o'r flwyddyn 2017-2018. Mae'r gwasanaeth yn cynnal 15 asesiad yr wythnos ar gyfartaledd yn y Fro ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu ar fwyafswm cyfnod aros o 3 diwrnod am apwyntiadau. Arweiniodd atgyfeiriadau'r Fro yn 2017 at 116 o atgyfeiriadau i Uned Caethiwed y Fro yn y Barri. Roedd cyfran sylweddol o'r

atgyfeiriadau hynny'n ymwneud â heroin fel y prif gyffur o ddewis.

Anaml y mae alcohol a sylweddau yn cael eu camddefnyddio gan unigolion nad ydynt yn ceisio goresgyn eu gwendidau a chuddio anghenion presennol. Mae'r 'Triawd Gwenwynig' alcohol/sylweddau, cam-drin domestig ac iechyd meddwl yn hynod o anodd ei reoli ac mae'r mater cymhleth hwn yn un na



ellir mynd i'r afael ag ef y tu allan i ddull partneriaeth. Ar hyn o bryd, mae Caerdydd a'r Fro yn ailgomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac un o'r nodau allweddol yw gwella'r profiad i bobl sydd angen gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth a thriniaeth. Mae'r system newydd yn cael ei dylunio ar hyn o bryd, a bydd yn canolbwyntio ar adnabod a helpu yn gynnar, darparu gwasanaethau hygyrch.

Byddwn yn ymchwilio i ymarferoldeb Llywiwr Systemau i oedolion ag anghenion cymhleth gael cefnogaeth i lywio'n fwy effeithiol trwy wasanaethau yn y gymuned.


Mater cyffredin a godir gan y rhai sydd â phroblemau cymhleth ac sy'n dibynnu ar nifer o faterion gwasanaeth yw pa mor gymhleth y gall y llwybr fod, yn enwedig pan ymddengys bod partneriaid yn gweithio mewn seilos ac yn rhoi cyngor a chymorth digyswllt.

Yn achos gwendidau, heb amheuaeth ein plant a'n pobl ifanc yn aml yw'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Un fenter bartneriaeth sy'n ceisio cefnogi plant sy'n agored i niwed yw Ymgyrch Encompass sy'n cysylltu'r heddlu'n uniongyrchol ag ysgolion i sicrhau canlyniadau gwell i blant sy'n destun neu'n dioddef o achosion o gam-drin domestig a fynychwyd gan yr heddlu. Mae darparu cefnogaeth gyflym yn amgylchedd yr ysgol yn golygu bod plant yn cael eu diogelu'n well yn erbyn effeithiau tymor byr, tymor canolig a hir cam-drin domestig.

Gwyddom fod byw ar aelwyd lle mae cam-drin domestig yw un o'r profiadau niweidiol plentyndod, a'r un modd, byw mewn cartref lle y camddefnyddir alcohol/sylweddau, yn ogystal ag

Byddwn yn cefnogi ysgolion y Fro i lansio
Ymgyrch Encompass

ystod o ffactorau eraill. Yn y flwyddyn 2017/18, roedd 15 gwaharddiad tymor penodol o ysgolion y Fro lle nodwyd mai cyffuriau neu alcohol oedd y rheswm dros gael eu gwahardd. Mae plant mewn gofal hefyd yn fwy tebygol o fod â phroblemau camddefnyddio sylweddau nag ardaloedd eraill yng Nghymru.



O'r 80 o bobl ifanc a aseswyd ar gyfer problem cyffuriau neu alcohol yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, nodwyd bod gan 53 broblem.

	Age	Barry	Penarth	Vale	Out of CSP	Total
2017-18	UNDER 18	314	101	44	201	660
	18-24	40	14	6	34	94
	25-34	27	14	11	34	86
	35-44	29	17	7	49	102
	45-54	19	6	3	9	37
	55-64	9	19	2	12	42
	65+	5	8	9	2	24
	TOTAL	443	179	82	341	1,045
2018-19	UNDER 18	268	95	81	144	588
	18-24	36	16	11	41	104
	25-34	46	7	3	76	132
	35-44	27	41	4	37	109
	45-54	13	9	4	30	56
	55-64	5	3	4	15	27
	65+	10	15	7	8	40
	TOTAL	405	186	114	351	1,056

Mae ymddieithrio o'r ysgol, ymwneud â gofal, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau i gyd yn ffactorau cyffredin mewn achosion o bobl goll. Yn y Fro, aeth 705 o bobl ar goll yn y flwyddyn 2018/2019 ac roedd 444 ohonynt o dan 18 oed. Mae bregusrwydd cynyddol plant ar goll i

Byddwn yn gwella'r cymwyseddau sydd eu hangen i nodi ACEs ac ehangu ar broiectau presennol lle bo hynny'n bosibl i gynnwys cefnogaeth ar gyfer meysydd angen eraill. Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau'n gallu edrych ar anghenion lluosog er mwyn darparu gwasanaeth mwy cyfannol.


gamfanteisio'n rhywiol ar blant, cam-drin cyffuriau, digartrefedd a throsedd yn golygu bod achosion bregusrwydd



i fynd ar goll yn flaenoriaeth i'r holl bartneriaid yn y sector.

Fel yr amlinellwyd o dan Flaenoriaeth 2, dim ond os

ydym yn gwrando ar farn ac awgrymiadau'r bobl sy'n eu defnyddio ac yn gweithio mewn partneriaeth â'n defnyddwyr gwasanaeth i wella a datblygu'r gofal a ddarparwn y mae ein gwasanaethau'n effeithiol. Mae ymgysylltu â defnyddwyr



cynyddol tuag at gynyddu'r cyfeiriad at wasanaethau a gydgyhyrchir gyda'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau, a dangosodd ymchwil tystiolaeth gymhellol bod gan gydgyhyrchu y fantais ychwanegol o wella gwendidau trwy ei allu i gynyddu llesiant unigolion.

gwasanaeth yn ganolog i wneud hyn, gan ein helpu i wneud ein gwasanaethau yn fwy ymatebol, effeithiol a phersonol.

Mae symudiadau

Byddwn yn creu strwythurau ar gyfer gwirfoddoli sy'n galluogi pob partner i recriwtio eu dioddefwyr/defnyddwyr gwasanaeth yn weithredol ac yn systematig i raglen sy'n galluogi dioddefwyr a defnyddwyr gwasanaeth i gael llais wrth redeg a datblygu ymyriadau a rhaglenni.


A photograph of a business meeting. In the foreground, two people in business attire are shaking hands. In the background, several other people are seated around a table, looking at documents and a laptop. The scene is brightly lit, suggesting an office environment.

BLAENORIAETH 4 – Gweithio gyda'n gilydd

Cryfhau'r gwaith partneriaeth arloesol a rhannu gwybodaeth yn y Fro i wella effeithlonrwydd a gwella datrys problemau.

Troseddu Cyfundrefnol

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei strategaeth ar gyfer delio â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at raddfa'r broblem o droseddau



cyfundrefnol a'r gost enfawr, yn ariannol ac yn ddyngarol, i gymdeithas. Er bod troseddau cyffuriau yn isel yn y Fro, un peth a wyddom yw bod troseddau difrifol a chyfundrefnol yn aml yn parhau i fod yn gudd neu'n cael eu tangynrychioli, felly

mae'r gwir ffigur yn debygol o fod yn llawer uwch na'r un a adroddir. Nid yw troseddau difrifol a chyfundrefnol yn cydnabod unrhyw ffin, gallant fod yn fyrhoedlog a gallant wneud defnydd llawn o dechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i gynyddu ei heffaith a gweithio ar raddfa lawer mwy.

Mae'n anodd iawn amcangyfrif y nifer o ddefnyddwyr cyffuriau, yn ogystal â delwyr; fodd bynnag, gellir gweld y gost ddynol yn nifer y marwolaethau o ganlyniad i ddefnyddio cyffuriau, a oedd yn 5 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2017.

Mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn effeithio ar fwy o ddinasyddion y DU, ac yn amlach, nag unrhyw fygythiad diogelwch cenedlaethol arall, ac yn arwain at fwy o farwolaethau yn y DU bob blwyddyn na'r holl fygythiadau diogelwch cenedlaethol eraill gyda'i gilydd.

Defnyddir y term 'Llinellau Cyffuriau' pan fydd gangiau cyffuriau o ddinasoedd mawr yn ehangu eu gweithrediadau i drefi llai, gan ddefnyddio trais yn aml i yrru delwyr lleol allan a cham-fanteisio ar blant a phobl agored i niwed i werthu cyffuriau. Bydd y delwyr hyn yn defnyddio llinellau ffôn symudol pwrpasol, a elwir yn 'linellau delio', i gymryd archebion gan ddefnyddwyr cyffuriau. Heroin, cocên a chrac cocên yw'r cyffuriau mwyaf cyffredin sy'n cael eu cyflenwi a'u

harchebu. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y defnyddwyr neu'r cwsmeriaid yn byw mewn ardal wahanol i'r man lle mae'r delwyr a'r rhwydweithiau yn byw, felly mae angen rhedwyr cyffuriau i gludo'r cyffuriau a chasglu taliad.

Ar hyn o bryd, mae'r IOM rhanbarthol yn datblygu yng Nghaerdydd a'r Fro i gynnwys llinellau cyffuriau. Yng Nghymru, y prif gyffuriau a gyflenwyd gan y llinellau a

nodwyd yng Ngogledd Cymru yn y cyfnod adrodd oedd Crac Cocên a Heroin, sy'n duedd barhaus. Mae nifer fach o linellau'n gwerthu Crac Cocên yn unig, a all fod yn gynrychioliadol o'r farchnad gyffuriau leol a'r galw am y cynnyrch ynghyd â'i broffidioldeb.

Ychydig iawn o linellau a nodwyd fel rhai sy'n rhedeg trwy'r Barri. Gwyddys bod un llinell hysbys yn tarddu yng

Nghasnewydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod dull partneriaeth yn hanfodol i atal, nodi ac ymateb i'r mathau hyn o droseddau cyfundrefnol.

Ochr yn ochr â'r angen i ddatblygu WASPI a phrotocolau rhannu gwybodaeth i hwyluso gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth, mae asiantaethau yn aml yn dod ar draws rhwystrau mwy ymarferol i rannu gwybodaeth o ystyried nifer y gwahanol systemau TG a ddefnyddir gan bob asiantaeth bartner nad ydynt yn gallu rhyngweithio gyda'i gilydd. Datrysiaid i'r mater hwn fyddai rhoi mynediad i asiantaethau i gronfeydd data ei gilydd; fodd bynnag, fel y gwelir gyda'r project asesu cam-drin domestig a chydlynu atgyfeirio (DAARC), mae hyn yn effeithiol ond yn cymryd llawer o amser.

“Llwyddiant project DAARC yw ei fynediad i nifer o gronfeydd data gwahanol adrannau sy'n galluogi casglu ystod eang o wybodaeth i gael y darlun gorau am yr hyn sy'n digwydd mewn PPN penodol. Yr

Byddwn yn ymchwilio i ymarferoldeb system rheoli gwybodaeth ar gyfer y Fro Ddiogelach sy'n gallu rhyngweithio â systemau presennol

anfantaais yw bod y dull hwn o ymchwilio yn cymryd llawer o amser” GWEITHIWR DAARC

Mewn cyfnod o dimau staff yn lleihau, byddai sefydliadau'n ei chael hi'n anodd cael hwn fel yr unig ffordd o gyrchu data a gedwir gan sefydliadau eraill. Un feirniadaeth o brotocolau rhannu gwybodaeth cyfredol, fel y'u lleisiwyd gan weithwyr proffesiynol yn y sector, yw bod rhannu gwybodaeth dda yn aml yn dibynnu ar ychydig o unigolion allweddol sy'n adnabod ei gilydd yn dda ac sy'n gallu codi'r ffôn yn rhydd a gwneud ymholiadau am eu maes gwaith. Os yw unrhyw un o'r bobl allweddol hyn i ffwrdd o'r gwaith, mae'r protocol rhannu perthynas a gwybodaeth yn aml yn cael ei atal hyd nes y daw'r person dan sylw yn ôl i'r gwaith. Yn achos unrhyw drosedd, ac yn sicr yn achos troseddau difrifol a chyfundrefnol, mae'n debygol y bydd angen gwybodaeth ar unwaith felly mae absenoldeb protocolau sy'n gweithio waeth beth fo'r unigolion neu ffactorau sefyllfaol eraill yn rhan annatod o adrodd cyflym, effeithiol a chywir.

Mae llawer o siroedd ledled y DU wedi datblygu Hybiau Diogelu Amlasiantaethol o'r enw MASH. Mae'r hybiau hyn yn amrywio'n fawr o ran eu cylch gwaith, eu swyddogaeth a'u protocolau ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithredu trwy gael nifer o asiantaethau wedi'u cydleoli ac yn gallu delio â

materion trwy ddefnyddio dull partneriaeth. Archwiliwyd y posibilrwydd o sefydlu MASH yn y Fro, ond o ystyried yr anawsterau a gyflwynir gan wahanol wasanaethau sy'n

Byddwn yn datblygu datrysiad priodol ar gyfer trafodaethau dyddiol sy'n hwyluso trafodaethau priodol ynghylch unigolion a theuluoedd sydd angen ymyrraeth partneriaeth.

rhychwantu gwahanol siroedd, goblygiadau adnoddau staffio MASH, o gofio bodolaeth sawl MASH eraill mewn ardaloedd cyfagos, penderfynwyd na fyddai hwn yn ateb addas i'r Fro. Fodd bynnag, cymeradwywyd y syniad o drafodaethau dyddiol ynghylch achosion newydd sydd angen sylw gan amryw o wasanaethau.

Nid gwybodaeth am ddefnyddwyr/dioddefwyr/cleientiaid y gwasanaeth yw'r unig wybodaeth bwysig i'w rhannu i gyflawni canlyniadau llwyddiannus. Mae gwybodaeth am yr hyn y mae'r gwasanaethau'n ei ddarparu, ble maent yn ei ddarparu ac yn ystod pa amseroedd gweithredu yr un mor bwysig i sicrhau bod gan staff gweithredol y wybodaeth gywir i hysbysu defnyddwyr gwasanaeth/dioddefwyr/cleientiaid.

“Mewn rhai gwasanaethau mae'n ymddangos bod aelodau staff yn newid mor aml, ni allaf gadw i fyny” Aelod o staff

Byddwn yn cydlynu creu taflen wybodaeth gyda chysylltiadau allweddol ar gyfer gwahanol agweddau ar Ddiogelwch Cymunedol ym mhob asiantaeth.

Byddwn yn trefnu sesiynau 'cyflymu/diweddarau' lle rhoddir plattform i ymarferwyr gwrdd a thrafod newidiadau wrth ddarparu gwasanaethau

I lawer o wasanaethau, dim ond cyllid tymor byr y mae projectau'n ei dderbyn ac felly mae'r hyn y maent yn ei ddarparu hefyd yn destun newid cyson.

Model OSARA o Ddatrys Problemau

Datblygodd yr heddlu fodel o ddatrys problemau o'r enw model OSARA (Objective, Scanning, Analysis, Response, Assessment). Gall defnyddio'r pedwar cam ym model partneriaethau OSARA ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o ddatrys materion i broblemau cyffredin.

Sganio

Gall unigolion benderfynu ar broblemau drwy:

- Brofiad personol gyda lleoliad, gweithgaredd neu ymddygiad sydd wedi dod i sylw'r gymuned/ heddlu.
- Cyfathrebu â thrigolion, busnesau, neu asiantaethau cyhoeddus / preifat eraill.

Problem yw dau neu fwy o ddigwyddiadau sy'n debyg o ran eu natur, sy'n achosi niwed neu sydd â'r potensial i achosi niwed, a bod y cyhoedd yn disgwyl i'r heddlu ddelio â'r broblem.

Mae tebygrwydd ymhlith digwyddiadau yn cynnwys:

- Person
- Lleoliad
- Ymddygiad
- Amser

Dadansoddiad

Mae hyn yn cynnwys dysgu popeth posibl am y digwyddiadau, y gweithredoedd a phwy sydd eisoes yn ymwneud â cheisio delio â'r broblem.

Dylai'r dadansoddiad fod yn drylwyr, yn greadigol ac yn arloesol gan fod nodweddion pob problem yn amrywio. Ni ellir datblygu ymatebion effeithiol oni bai eich bod chi'n gwybod beth sy'n achosi'r broblem.

Gall natur y broblem ymddangos yn amlwg ar yr olwg gyntaf, ond pwrpas y dadansoddiad yw dysgu cymaint â phosibl am broblem i nodi'r hyn sy'n ei hachosi.

Meddylwch am: pwy, beth, pryd, ble a pham i helpu i gasglu'r dystiolaeth.

Ymateb

Yn seiliedig ar y camau sganio a dadansoddi, gellir cynllunio atebion i:

- Ddileu'r broblem

- Lleihau'r broblem
- Lleihau'r niwed a achosir gan y broblem
- Delio â'r broblem yn well
- Nodi'r unigolyn / asiantaeth a all ymdrin â'r broblem yn y ffordd orau

Byddwn yn datblygu protocolau ar gyfer rhannu arfer da yn systematig

Mae'n ddefnyddiol ystyried a oes gwarcheidwaid y rhai yr effeithir arnynt (er enghraifft, rhieni, gofalwyr), neu reolwyr lleoliadau (er enghraifft, landlord, ymddiriedolwyr)

Asesiad

Dyma lle rydych chi'n gwerthuso effeithiolrwydd eich ymateb.

Gall gynnwys:

- Dileu'r broblem yn llwyr
- Problemau llai difrifol neu niweidiol
- Trin ac ymateb yn well i'r broblem

Ffordd i weld a yw'r asesiad wedi cael unrhyw effaith ar y gymuned fyddai:

- Llai o ofn gan y gymuned mewn perthynas â'r broblem
- Mwy o ddefnydd neu nifer o ymwelwyr mewn ardal
- Gostyngiad mewn troseddu a digwyddiadau mewn perthynas â'r lleoliad hwnnw

Mae asesu yn caniatáu inni edrych ar ba effaith a gafodd yr ymateb ar broblem. Os na chafodd yr ymateb fawr o effaith, neu ddim effaith o gwbl, gellir cwblhau mwy o ddadansoddiad fel y gellir cymhwyso ymateb mwy priodol. Os arweiniodd yr ymateb at newid cadarnhaol, gellir penderfynu beth sydd ei angen, os rhywbeth, i gynnal y newid.

Partneriaethau Alcohol Cymunedol



Mae Partneriaethau Alcohol Cymunedol (PAC) yn Gwmni Buddiant Cymunedol a'i nod yw lleihau niwed alcohol mewn cymunedau lleol o ran ymddygiad yfed pobl ifanc o dan 25 oed, gyda phwyslais arbennig ar atal yfed dan oed.

Swyddogaeth bwysicaf PAC yw ei fod yn gatalydd ar gyfer gwaith partneriaeth lleol effeithiol i leihau niwed alcohol. Rydym yn dwyn ynghyd ystod o randdeiliaid lleol sydd â diddordeb cyffredin mewn atal yfed dan oed, ac annog yfed yn gyfrifol ymysg oedolion ifanc.

Rhaid i bartneriaid lleol, gan gynnwys manwerthwyr, fod yn barod i weithio mewn partneriaeth i gyflawni amcanion sy'n gysylltiedig â lleihau yfed dan oed a'r niwed cysylltiedig. Mae partneriaid PAC yn amrywio ond fel rheol byddant yn cynnwys yr heddlu, safonau masnach, adrannau awdurdodau lleol perthnasol fel iechyd y cyhoedd, trwyddedu, ymgysylltu â'r gymuned a gwasanaethau ieuencid, ysgolion, elusennau

lleol, cymdeithasau tai, cymdeithasau preswylwyr a manwerthwyr/ trwyddedeion alcohol.

Ym Mhenarth, ffurfiwyd Partneriaeth Alcohol Cymunedol yn dilyn problem barhaus o bobl ifanc yn yfed yng nghanol y dref; cynhaliodd swyddogion heddlu Penarth arolygon gydag ysgolion a thrigolion lleol a dangosodd data mai dim ond 15 y cant o'r bobl 16 a 17 oed nad oeddent erioed wedi yfed alcohol a dywedodd 20 y cant eu bod yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos.

Dangosodd ffigurau fod 20 y cant o'r trigolion a arolygwyd yn dweud eu bod yn dyst i bobl ifanc yn yfed alcohol yn wythnosol yng nghanol Penarth.

“Bydd cyflwyno PAC yn ategu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan swyddogion lleol a'n partneriaid, a gobeithio y bydd yn enghraifft wych o'r heddlu ac asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol, i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwneud ein cymunedau'n lleoedd gwell i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.” Tony Williams, Prif Arolygydd Bro Morgannwg

Enghraifft o gydweithio cadarnhaol sydd wedi bod yn digwydd ers nifer o flynyddoedd yw'r gwaith a gwblhawyd gan y Cyngor a'r Heddlu mewn ymateb i faterion trwyddedu. Mae'r tîm yn cynnal gweithrediadau rheolaidd i nodi ac ymdrin â gwerthiant alcohol dan oed, gwerthu cyllyll yn anghyfreithlon a gwerthu Sylweddau Seicoweithredol Newydd (sef Ocsid Nitraidd). Rhwng 2016 a 2018 roedd 28 prawf; methodd 3 eiddo'r rhain, ac maent nawr yn cael eu rheoli gan y timau.

BCA Caerdydd a'r Fro

Crëwyd Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg (BCA) ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn 2010 i gryfhau gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth strategol i gyflawni strategaeth camddefnyddio sylweddau yn ogystal â gwella swyddogaethau allweddol cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad. Mae'r BCA yn un o 7 BCA sy'n cwmpasu'r holl fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'n cynnwys partneriaid statudol ac anstatudol. Cyflwynir gwariant BCA trwy'r gronfa gweithredu camddefnyddio sylweddau sy'n grant blynyddol a ddyfernir i gefnogi'r BCA i gyflawni ei flaenoriaethau comisiynu.

Mae'r BCA yn cynnwys bwrdd lefel strategol, Grŵp Comisiynu, Cyllid a Chyflenwi ar lefel weithredol yn ogystal ag ystod o is-grwpiau ymgynghorol. Mae'r BCA yn cydlynu gweithgareddau sy'n ymwneud â lleihau marwolaethau o

Sefydlwyd cydweithrediad i ddadansoddi data'r GIG ym mis Ebrill 2014 rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Heddlu De Cymru, gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, ac mae'n ceisio defnyddio tystiolaeth i atal trais yn ei darddiad trwy nodi a mapio cymunedau, yn benodol rhawdiau'r heddlu, sydd â'r nifer uchaf o gyflwyniadau i ofal iechyd o ganlyniad i drais. Mae hyn yn caniatáu ymyrraeth wedi'i thargedu i atal trais mewn cymunedau sydd fwyaf mewn perygl. Cynhyrchir adroddiadau arferol rheolaidd i Grwpiau Atal Trais Lleol ac maent yn darparu cyngor ar sail tystiolaeth o ran ymyrraeth ac atal.

gamddefnyddio cyffuriau ac o'r herwydd mae'n cynnal Paneli Adolygu Gwenwyno drwy Gyffuriau Angheuol sy'n cyfarfod yn fisol ac yn trafod achosion o unigolion sydd wedi marw, yn debygol o ganlyniad i wenwyn cyffuriau (gorddos). Mae'r argymhellion o'r paneli hyn yn cael ei bwydo trwy'r grwpiau BCA a all ystyried mecanweithiau strategol a gweithredol i leihau nifer y marwolaethau yn y dyfodol.

Gwahoddir y Fro Ddiogelach i bob lefel o bartneriaeth BCA ac mae'n bartner sefydlog allweddol.

Trais Difrifol

Ym mis Ebrill 2019, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad ynghylch a ddylid cyflwyno dyletswydd gyfreithiol newydd i gefnogi'r camau amlasiantaethol sydd eu hangen i atal ac ymdrin â thrais difrifol. Mae hyn mewn ymateb i'r gydnabyddiaeth bod angen gwneud mwy mewn partneriaeth i ymdrin â materion fel troseddau treisgar difrifol. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn bodoli ochr yn ochr â nifer o fentrau a strategaethau eraill yn seiliedig ar ymdrin â throseddau a bregusrwydd difrifol gan gynnwys Cronfa Waddol Ieuenctid newydd gwerth £200 miliwn, adolygiad annibynnol o gamddefnyddio cyffuriau a chyhoeddi'r Strategaeth Trais newydd ym mis Ebrill 2018.

Datblygwyd y Grŵp Trais Difrifol Cymru Gyfan i sicrhau aliniad rhwng Strategaeth Trais Difrifol y Swyddfa Gartref â'r uchelgeisiau a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Plismona a'r Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol eraill sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r grŵp yn fforwm ar gyfer datblygu consensws, gosod cyfeiriad a darparu cyngor ac mae'n gyfrwng i wybodaeth lifo rhwng Tasglu Trais Difrifol yr Ysgrifennydd Cartref a rhanddeiliaid yng Nghymru. Ffocws cynnar y Gweithgor fu datblygu strategaeth a chynllun gweithredu traws-sector y cytunwyd arnynt ar y cyd ar gyfer ymdrin â thrais difrifol yng Nghymru, trwy ddull iechyd cyhoeddus, a goruchwylio ei weithrediad. Y

nod yw canolbwyntio ar drais difrifol gan gynnwys lleihau troseddau cyllyll a gynnau, ymdrin â llinellau cyffuriau a gwella cyfnewid data rhwng iechyd, plismona, cyfiawnder troseddol a phartneriaid eraill. Mae adolygiad strategol o Gymru gyfan yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i gynhyrchu fframwaith ar gyfer ymdrin â thrais difrifol ledled y wlad. Comisiynwyd yr Uned Trais a Bregusrwydd a sefydlwyd gan y Swyddfa Gartref i gyflawni'r gwaith hwn ac ymgynghorwyd â dros 200 o bobl o 80+ o sefydliadau, ac yn dilyn cyfres o argymhellion rydym yn datblygu strategaeth a fydd yn sicrhau bod y Strategaeth Trais Difrifol yn cael ei gweithredu'n llawn yng Nghymru, yn talu sylw i'r darlun datganoledig, ac yn galluogi dull cyson ar draws yr heddluoedd a'n hasiantaethau partner.

Byddwn yn sicrhau y darperir ymateb gweithredol a chryf i grwpiau, ymgynghoriadau ac adolygiadau i warantu bod y materion penodol a nodwyd ac a brofwyd gan y Fro Diogelach yn cael eu cyfleu a'u rhoi ar blatfform i ddylanwadu ar newid a gwelliant cenedlaethol.

Yn 2017 cynhaliodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol weithdy i edrych ar y materion sy'n wynebu gwasanaethau cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau yn y Fro, yn enwedig lle'r oedd y ddwy broblem yn cyd-ddigwydd. Un o ganlyniadau'r gweithdy oedd nodi'r angen i helpu pob sefydliad i ddeall maes arbenigedd y sefydliad arall yn well. Arweiniodd hyn at i gam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau weithio gyda'i gilydd i gyflwyno modiwl hyfforddi ar draws y sector cyfan ar nodi ac ymyrryd mewn cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau a oedd yn cyd-ddigwydd.

Roedd yr hyfforddiant ar y cyd hwn yn golygu bod aelodau staff yn gyffredinol yn cael amser i fynychu un sesiwn hyfforddi yn hytrach na dwy.

Roedd gwasanaethau cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau yn gallu arbed adnoddau wrth ddarparu hyfforddiant ar y cyd.

Derbyniodd y sector cyfan hyfforddiant safonedig felly mae'n gallu delio â'r mater yn yr un modd.



Archwilio pa fodiwlau hyfforddi asiantaeth y gellir eu hagar i asiantaethau eraill i greu datrysiad cost-effeithiol i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

Dysgu o ardaloedd eraill: Astudiaeth Achos gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru

HYB MALPAS

Mae Hyb Ymgysylltu Casnewydd yn adeilad arloesol wedi'i leoli yng Ngorsaf Dân Malpas, y cyntaf o'i fath i'r Gwasanaeth Tân, ac mae'n Hyb blaenllaw i SWFRS ac asiantaethau partner, sy'n darparu cartref cost-effeithiol a blaengar ar gyfer ymgysylltu â Diogelwch Cymunedol modern.

Mae'r project hwn yn galluogi cydweithredu a chefnogaeth i gynnal darlun cywir o YGG, gan hwyluso adrodd ac yn y pen draw gryfhau hyder y gymuned trwy weithio'n effeithiol. Yr Hyb yw uwchganolbwynt cyswllt â phartneriaethau gan gynnwys: Heddlu Gwent; Gwasanaethau Ieuenctid; CADROS; Casnewydd Fyw; Dyfodol Cadarnhaol; Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant; Tîm Atal Plant a Phobl Ifanc; Swyddogion Gwyro; Swyddogion YGG; Cyngor Casnewydd; Cymorth i Ddiodefwyr.

Ar wahân i'r bartneriaeth sy'n gosod tasgau ar y cyd, mae'r Hyb hefyd yn cynnal Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Projectau Ymyrraeth Ieuenctid sy'n gweithio i adeiladu partneriaethau ledled Gwent er mwyn addysgu a chodi ymwybyddiaeth o negeseuon allweddol y Gwasanaethau Tân gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed y gwyddys eu bod yn troseddu, mewn perygl o droseddu, yn ymwneud ag YGG neu'n arddangos ymddygiad peryglus neu heriol am resymau fel iechyd meddwl neu amlygiad i ACES.

Mae'r buddion a gasglwyd gan bartneriaid yn cynnwys:

- Gostyngiad dramatig yn nifer y cyfarfodydd amlasiantaethol

- Mwy o wybodaeth a data partneriaeth ar gael.
- Goruchwylio themâu fel pobl sy'n cysgu allan, CSE, OCG, iechyd meddwl.
- Mwy o wybodaeth gefndir ar unigolion ar gael cyn arestio neu ymddangos yn y llys.
- Mwy o ryngweithio â LCC a gwasanaethau cymorth a allai ddatrys problemau yn y gymuned.
- Cedwir mwy o wybodaeth gan wasanaethau statudol e.e., Gwasanaethau Cymdeithasol ayb. fel rhan o'r ymateb amlasiantaethol i droseddu / YGG.
- Mwy o bwerau ar gael i'w defnyddio e.e., gellir defnyddio bwerau statudol sydd gan yr awdurdod lleol yn unig ar y cyd â phwerau lleihau YGG neu arestio i ddatrys problemau.
- Cesglir tystiolaeth i gefnogi CBOs, Gwaharddebau a CPNs a phwerau eraill trwy'r Hyb.
- Archwilio atebion newydd i broblemau a ffyrdd arloesol o weithio a all gael canlyniadau e.e., casglu gwybodaeth gyda phobl ifanc, pobl sy'n cysgu allan a llwybrau atgyfeirio at atebion mewn lleoliad amlasiantaethol.
- Gostyngiad yn nifer y cyfarfodydd.
- Gostyngiad yn yr amser a gymerir i ddelio â materion oherwydd swyddfa amlasiantaethol.
- Gostyngiad yn yr amser mae'r heddlu yn ei dreulio ar waith papur, megis ceisiadau 115 am wybodaeth.

Sylwadau i Gloi

Mae'r strategaeth uchelgeisiol hon yn nodi'r cyfeiriad i waith y Bartneriaeth Bro Ddiogelach dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu anghenion amrywiol Bro Morgannwg mewn perthynas â throstedd ac anhrefn ac ehangder y partneriaid a'r rhanddeiliaid sydd angen bod yn rhan o'r frwydr i wneud ein cymunedau'n lleoedd mwy diogel i fyw ynddynt, mewn termau real ac yn y canfyddiadau o ddiogelwch a deimlir gan y rhai sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â'r Fro. Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng y blaenoriaethau a amlinellir yn y strategaeth ac anogir partneriaid i ystyried sut y gall ymrwymiad mewn un ardal blaenoriaeth hefyd ddarparu buddion cadarnhaol mewn ardal blaenoriaeth arall. Bydd yn hanfodol cyfleu'r gorgyffwrdd hwn i sicrhau na fydd unrhyw ddyblygu, ac y ceir gweithio cydgysylltiedig llyfn. Mae edau euraidd yn rhedeg trwy bob grŵp sy'n cynrychioli'r Fro Ddiogelach, pob lefel hierarchaeth a phob un blaenoriaeth strategol. Cyfrifoldeb pawb sy'n gysylltiedig yw adnabod ac ymateb i'r edau euraidd hwn.

Bob blwyddyn, cynhelir asesiad strategol newydd yn unol â'r gofynion a osodir ar y Bartneriaeth a bydd yr asesiad hwn yn darparu sylfaen ar gyfer adolygiad o'r Strategaeth i sicrhau bod y ddogfen fyw hon yn cael ei hadnewyddu a'i halinio â'r anghenion mwyaf cyfredol a phwysig ym Mro Morgannwg. Bwriedir i'r strategaeth hon fod yn asgwrn cefn y Bartneriaeth, ac fel dogfen fyw, dylai bob amser adlewyrchu Bro Morgannwg heddiw ac yfory.

